<sup>6</sup> <https://www.welshwomensaid.org.uk/what-we-do/change-that-lasts/south-wales/trusted-professionals/>

<sup>7</sup> <https://www.welshwomensaid.org.uk/2020/03/responding-to-violence-against-women-domestic-abuse-and-sexual-violence-during-the-covid-19-pandemic/>

- *Ensure health services facilitate identification and disclosure with onward referral to specialist support.* Changes to accessing health care, such as phone call access to GPs and A&E triage systems may create barriers for identifying those experiencing abuse. The implementations of new systems need to consider how space will be created to enable disclosures and to safely signpost or refer to specialist support. Staff managing triage calls or other points of contact with patients that have changed due to COVID-19 need to be trained to safely respond and act on disclosures within the current situation, in line with the National Training Framework.
- *Access to test and tracing system needs to consider the safety and support needs of survivors.* Many survivors will not be able to share personal details as it could be significantly dangerous for them to disclose where they have been or to be traced. Systems have been discussed with the test and trace system, to support contacting survivors accessing refuges can be done through the safety of linking with specialist support services. Advice has also been given to tracing service to understand the barriers to a survivor participating in the process. If someone is or has experienced coercive controlling relationship they may experience restricted access to testing, restricted in who they are able or allowed to be in contact with, there may be significant dangers in disclosing to a testing centre who they have been in contact with or being traced. They may also be restricted in complying with self-isolation.
- *Ensuring we continue to hold perpetrators to account.* Courts have a backlog of cases that they are currently going through. This has meant that in many cases survivors have gone through additional distress with cases being postponed and delayed further. They will require additional support and advocacy to support them in engaging with the new set up of courts and the delays. Survivors with multiple needs, will need additional support to navigate the new court processes and access systems through socially distanced mechanisms, including accessing remote evidence centres. The delay and backlogs must not see a reduction in perpetrators being held to account, we must ensure bail conditions are robust and do not enable further abuse and we must see sentencing remain proportionate. Perpetrator services have adapted their provision to meet with COVID-19 restrictions, these services need to be continued throughout new local lockdowns, recognising that there will be increased demand for these services going forward as evidenced in increased calls to the Respect UK helpline.
- *Proactively plan for the safety and support of survivors of sexual exploitation and women engaged in prostitution.* Survivors of sexual exploitation and women engaged in prostitution have continued to navigate multiple complex barriers in the wake of the pandemic. In addition to the significant harm they already experience, many will be facing additional risks surrounding unsuitable/ unsafe housing, access to hygiene facilities, increased risk of infection, decreased income, increased police sanctions and increased abuse and harassment (from communities, buyers, and 'pimps'). The VAWDASV risks surrounding COVID-19 have largely been framed around domestic abuse, meaning survivors of other forms of VAWDASV, their realities and adequate housing/ support is not centred in planning. As the nature of the

pandemic and our response to it continues to evolve as we plan for the future of Wales, it is vital that the safety and wellbeing of all survivors is included. These concerns also need to be embedded for medium and long-term planning for VAWDASV, including the Welsh Government National VAWDASV National Strategy refresh.

## Medium-term

These are actions which must be implemented to ensure specialist services and wider agencies are adequately prepared and resourced to maintain and adapt provision as the pandemic and the Government response to it continues to develop.

- *Monitor the need for additional funding ahead of March 2021 £1.5million spend deadline.* We welcomed the announcement of an additional £1.5 million COVID-19 funding to be utilised until 31 March 2020. As the effects of the pandemic will be long lasting and continue to change both the support which is needed and the way in which provision is delivered, we call for this to be acknowledged in the Welsh Government budget and future commission practices and levels of continued investment across the VAWDASV sector.
- *Recentre Violence Against Women, Sexual Abuse, and Domestic Violence as a Welsh Government priority and renew commitment to embedding existing legislation across all directorates.* The COVID-19 pandemic has highlighted the lack of cross government strategic awareness and focus on the legislation's intended purpose to enable a cross-government, cross-department response to end VAWDASV and end the postcode lottery survivors face when seeking safety and support. We believe that until the purpose of the Act is achieved, consequences of the pandemic will continue to disproportionately effect survivors of VAWDASV. Recentring VAWDASV as a Welsh Government priority will ensure the safety of women and children is considered in policy development and emerging emergency measures.
- *Re-establishment of national governance structures to provide oversight of the delivery of the purpose of the Act and the National strategy and delivery plan.* During the COVID-19 pandemic, the Welsh Government have led weekly and bi-weekly VAWDASV Strategic COVID meetings that have provided a space to feed in and respond to the immediate crisis. Welsh Women's Aid has raised that there needs to be a strategic focus now on planning for the future. We held our roundtable to enable the beginning of these discussions however leadership now needs to come from ministerial, adviser and official levels to take this forward. The National VAWDASV Expert Stakeholder Group has only met twice in the last 2 years. The governance structure at a national level must be re-instated and must engage across directorates. It has a role in monitoring and reviewing on progress to the national strategy and delivery plan and needs to have feed in from the Sustainable Funding Task and Finish Group, HBV Leadership Group, Vulnerable Children and Safeguarding Group and All Wales Sexual Violence group to strategically bring together work that has been instigated before and during the pandemic to monitor the strategic delivery in line with the duties in the Act.

- *Ensure dedicated children workers in both refuge and community services to provide practical and therapeutic services for children and young people to enable them to recover from their experiences, recognise abuse and develop healthy relationships in the future.* Children and young people are being specifically impacted by the current climate which provides increased opportunity for perpetrators to monitor and control family members, increased opportunity for online sexual exploitation and results in more children and young people becoming “invisible” to services.<sup>8</sup> Specialist services that provide support for children and young people report that there are significant concerns for the wellbeing of children and young people across refuge and community support. Therapeutic support has not been possible with adapted online support and safeguarding/welfare checks are challenging as it is not clear who is in the room and with young children they are not able to access independently.
- *Increase the availability of varied flexible accommodation and support for survivors.* Accommodation based support, including refuge, for survivors of VAWDASV is an important element of building safety, support, and enabling long-term freedom from violence and abuse. The pandemic has magnified the importance of a safe home. Each survivor’s needs will be unique to their experience, services must be well resourced to offer this flexibility.

## Long-term

These are actions which must be implemented to ensure a stable foundation on which to build a ‘new normal’ where we commit to ending violence against women and children in all its forms. Although these actions are ‘long-term’ the work to fulfil them must begin today.

- *Ensure funding for the VAWDASV specialist sector is sustainable and reflects nuances across provision.* COVID-19 has demonstrated that now more than ever services need to be in receipt of secure and sustainable funding to be able to both react and plan for changing needs and environment. As the specialist support sector navigate the fall out and work to mitigate further damage, secure funding will ensure access to refuge, trauma informed practice, therapeutic support, prevention work, perpetrator interventions and support in the community can continue. Sustainable funding means sustainability of specialist VAWDASV support and shows a commitment to ending VAWDASV as opposed to managing a crisis response.
- *Commit to a long-term solution for supporting survivors with no recourse to public funds (NRPF).* Emergency COVID-19 funds enabled services to support survivors with No Recourse to Public Funds (NRPF). Services have raised concerns regarding women with NRPF following

<sup>8</sup> <https://www.welshwomensaid.org.uk/2020/03/supporting-children-and-young-people-through-the-coronavirus-pandemic/>

the pandemic and the removal of access to emergency funds. Having supported the women during lockdown they will not be able to remove the support due to the risk she will have to return to her abuser or face destitution. If the women are to be supported in refuge rent and support costs will need to be covered. A long-term commitment to supporting women with NRPF is the only way we can ensure *every survivor* will have access to safety and support.

- *Invest in early intervention and prevention.* It is vital that we do not lose sight of prevention of VAWDASV and enabling early access to support during and post COVID 19. VAWDASV is preventable. This means we can take action to stopping VAWDASV happening in the first place, whilst also take earlier action to ensure we are preventing further harm for those already impacted. In Wales there is a prevention agenda across a number of remits VAWDASV, ACEs, Future Generations, Violence prevention Unit, housing, safeguarding – particularly creating join up on legislative and policy agendas that would build on the synergy developed during COVID 19. We have seen a move to recognise the VAWDASV as a public health pandemic during COVID-19 in Wales and this prioritisation must not be lost post COVID-19. The World Health Organisation has produced briefings on VAWG and COVID-19, with evidence based on global information and previous pandemic research, available [here](#).
- *Create communities that are aware of the prevalence of VAWDASV, take action to challenge it and provide supportive responses to survivors.* During the COVID-19 pandemic Welsh Women's Aid have focused on ensuring that support networks remain available to survivors and that communities are aware of how to take supportive action. Learning from our Ask Me programme, we have developed our Bystander Toolkit that provided a range of information to get the message out there on how different community actors could still be active bystanders during COVID-19 in safe and supportive manner.

*Any comments or questions regarding this briefing can be directed to:*

**Jordan Brewer**

Policy and Research Officer

[JordanBrewer@welshwomensaid.org.uk](mailto:JordanBrewer@welshwomensaid.org.uk)



Ken Skates AS

Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd

---

13 Hydref 2020

Annwyl Ken,

Fel y soniodd Helen Mary Jones yn y Cyfarfod Llawn ar 7 Hydref, fel rhan o'n hymchwiliad parhaus i Adferiad o Covid-19, clywsom dystiolaeth [ddydd Mercher 7 Hydref](#) gan sectorau yr effeithir arnynt ar gyfer yr hirdymor gan gynnwys twristiaeth, lletygarwch, manwerthu a'r diwydiant gwallt a harddwch. Cyn cytuno ar yr adroddiad llawn, hoffai'r Pwyllgor ofyn am sicrwydd ar fater penodol a godwyd, sy'n gofyn am sylw prydlon, ac y deallwn eich bod chi eisoes yn ymchwilio iddo.

Amlygodd Victoria Brownlie o'r Ffederasiwn Gwallt a Harddwch Cenedlaethol (NHBF) effaith anghymesur y cyfyngiadau presennol o fewn y canllawiau ar wasanaethau cyswllt agos ar barlyrau harddwch. Mae'r canllawiau'n cynghori'n gryf yn erbyn triniaethau ar yr wyneb, sydd rhwng 50 a 70 y cant o'r triniaethau a gynigir gan y diwydiant harddwch, sef diwydiant sy'n cynnwys menywod 95 y cant.

Mae'r diwydiant gwallt a harddwch yn cyfrannu'n sylweddol at economi sylfaenol Cymru ac at iechyd a lles. Fodd bynnag, mae ei bwysigrwydd yn ymestyn y tu hwnt i hyn, ac amlygodd Victoria fod salonau a pharlyrau harddwch yn rym allweddol wrth ddenu pobl i'r stryd fawr, ac o'r herwydd maent yn creu nifer o ymwelwyr â busnesau eraill, ac maent hefyd yn aml yn gweithredu fel canolfannau cymunedol lleol.

Rheswm arall pam mae'r diwydiant yn hanfodol i economi Cymru yw am ei fod yn gyflogwr o bwys i fenywod. Mae'r mwyafrif o fusnesau gwallt a harddwch yn ficro-fusnesau sy'n eiddo i entrepreneuriaid benywaidd ac maent yn cefnogi menywod sy'n gweithio sydd â phlant.

Tynnodd Victoria Brownlie sylw at yr angen i newid y canllawiau yn gyson er mwyn sicrhau y gellir cynnig gwasanaethau diogel o ran Covid fel y gall busnesau gynhyrchu incwm eto. Roedd [tystiolaeth y Ffederasiwn Gwallt a Harddwch Cenedlaethol](#) hefyd yn annog bod angen gochel rhag unrhyw agwedd “wamal” o ran sut mae’r sector yn cael ei ddirnad a’i drin, a mynegodd bryder na chaiff y cyfraniad economaidd y mae’r sector yn ei wneud ei gydnabod bob amser.


Fel y gwyddoch, o [lythyr](#) dyddiedig 7 Hydref atoch gan Victoria Brownlie, mae’r Ffederasiwn Gwallt a Harddwch Cenedlaethol wedi rhybuddio bod dros draean o fusnesau gwallt a harddwch yng Nghymru wedi dweud eu bod yn ansicr a fyddant yn goroesi y tu hwnt i’r Nadolig. Mae’r Ffederasiwn wedi dweud wrthym, os bydd y busnesau hyn yn methu parhau, nid yn unig y bydd trychineb o ran busnesau a oedd gynt yn llewyrchus yn cau, ond hefyd y risg y gallai fod angen i’r bobl a gyflogir ganddynt ar hyn o bryd droi at y ‘farchnad ddu’ am waith. Mae triniaethau gwallt a harddwch heb eu rheoleiddio yn beryglus i’r ymarferydd ac i gleientiaid.

Byddai’r Aelodau yn croesawu cael sicrwydd na ddangosir gogwydd anymwybodol o ran y rhywiau yn null gweithredu polisi Llywodraeth Cymru o ran y sector hwn. Nodwn, mewn ymateb i adroddiad diweddar y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, sef ‘Amlygu’r materion: anghydraddoldeb a’r pandemig’, fod Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd asesiadau effaith pellach yn ymwneud â rheoliadau a chanllawiau o ran y coronafeirws yn cael eu cyhoeddi, ac y byddai yn “rhaid dysgu gwersi o ddyddiau cynnar y pandemig.”

Mae’r Pwyllgor yn croesawu eich ymateb i gwestiwn Helen Mary Jones yn y Cyfarfod Llawn a’ch ymrwymiad i edrych ar anghysonderau posibl yn y canllawiau o ran gwasanaethau cyswllt agos, a hoffai gael ei ddiweddarau am ganlyniad hyn. Hoffem, fodd bynnag, ofyn y cwestiynau a ganlyn hefyd:

- Pa ystyriaeth a roddwyd i effaith y canllawiau cyswllt agos hyn ar ba mor hyfyw yw busnesau yn y sector gwallt a harddwch?
- Sut mae’r canllawiau yng Nghymru ar gynnal triniaethau yn y ‘parth risg uchel’ yn cymharu â’r canllawiau yng nghaneddloedd eraill y DU?
- A ydych yn fodlon bod asesiad effaith digonol wedi’i wneud o’r cyfyngiadau parhaus hyn? a
- Chan fod angen adolygu’r canllaw hwn yn rheolaidd, beth yw’r broses ar gyfer cyflawni hyn?

Rwyf wedi copïo’r llythyr hwn at John Griffiths, yn ei rôl fel cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

A handwritten signature in black ink, reading "Russell George". The signature is written in a cursive style with a large initial 'R' and a long horizontal flourish at the end.

Russell George AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

## Eitem 5.3

John Griffiths AS  
Cadeirydd, Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau  
Senedd Cymru  
Caerdydd  
CF99 1NA

15 Hydref 2020

Annwyl Gadeirydd,

### **Ynghylch: Sesiwn dystiolaeth gyda'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, 12 Hydref 2020**

Gobeithio eich bod chi a'ch teulu yn cadw'n dda yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Yn dilyn eich sesiwn dystiolaeth gyda'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, roeddwn yn meddwl y byddai'n ddefnyddiol ailddatgan fy safbwynt ynghylch adroddiad Llywodraeth Cymru *Ailadeiladu Covid-19: Heriau a Blaenoriaethau* a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf.

Mae elfennau o'r adroddiad a fydd, yn fy marn i, o fudd i bobl hŷn ac sy'n adlewyrchu rhai o'r materion a drafodais gyda'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog dros Bontio Ewropeaidd mewn cyfarfod ym mis Mehefin ac sydd wedi'u nodi yn fy adroddiad [Gadael Neb ar Ôl: Camau gweithredu ar gyfer adferiad o blaid pobl hŷn](#), a gyhoeddwyd ym mis Awst.

Fodd bynnag, fel y dywedais yn fy [ymateb](#) i'r adroddiad, cefais sioc a siom nad oedd yr adroddiad yn cydnabod pobl hŷn yn benodol fel grŵp y mae pandemig Covid-19 wedi effeithio'n anghymesur arno, nac yn cydnabod eu cyfraniadau pwysig i gymdeithas Cymru, ein heconomi, a rôl hollbwysig pobl hŷn yn adferiad ac yn nyfodol Cymru.

Rwyf wedi ysgrifennu at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog dros Bontio Ewropeaidd i amlinellu fy mhryderon ac rwyf wedi gofyn am gyfarfod i drafod yn adeiladol y camau sydd eu hangen i sicrhau bod pob cenhedlaeth yn teimlo eu bod yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi a bod pobl hŷn yn gallu cymryd rhan lawn yn y gwaith o ailadeiladu ac adfer Cymru.

Yr wyf yn ymwybodol bod Age Cymru ac arweinwyr sefydliadau cenedlaethol pobl hŷn Cymru wedi codi pryderon tebyg, ac wedi ysgrifennu hefyd at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog dros Bontio Ewropeaidd.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, neu os gallaf gynorthwyo'r Pwyllgor gyda'ch ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yr wyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn at y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog dros Bontio Ewropeaidd, a'r Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol er gwybodaeth iddynt.

Yn gywir,



Heléna Herklots CBE  
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

CC:

Jane Hutt, y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

Jeremy Miles, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog dros Bontio Ewropeaidd

Julie Morgan, y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

# **Cydraddoldeb a hawliau dynol mewn gofal preswyl yng Nghymru yn ystod coronafeirws**

Hydref 2020

## **Ynglŷn â ni**

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yw corff cydraddoldeb cenedlaethol Prydain Fawr ac mae wedi'i achredu gan y Cenhedloedd Unedig fel sefydliad hawliau dynol cenedlaethol 'Statws A'. Rydym yn gweithredu'n annibynnol fel corff cyhoeddus statudol a sefydlwyd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2006. Rydym wedi cael pwerau gan y Senedd i gynghori'r Llywodraeth ar oblygiadau cydraddoldeb a hawliau dynol ynghylch deddfau a deddfau arfaethedig, ac i gyhoeddi gwybodaeth neu ddarparu cyngor ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig â cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol. Gallwch ganfod rhagor am ein gwaith ar ein [gwefan](#).

## **Cyflwyniad**

---

1. Mae'r pandemig coronafeirws wedi cael effaith ddwys ar y rhai sy'n byw mewn gofal preswyl ac wedi codi cwestiynau difrifol ynghylch y gwerth rydym yn ei roi ar fywydau pobl hŷn ac anabl. Mae tystiolaeth na chynhaliwyd safonau cydraddoldeb a hawliau dynol, gan gynnwys mewn penderfyniadau allweddol ynghylch derbyniadau cartrefi gofal, ymweliadau a mynediad at ofal critigol. Wrth i ni baratoi ar gyfer ton nesaf y pandemig, mae gennym gyfle pwysig i archwilio sut y gwnaed y penderfyniadau hyn a beth arall sydd angen ei wneud i ddiogelu hawliau pobl hŷn ac anabl.
2. Nawr yn fwy nag erioed dylai ein deddfau cydraddoldeb a hawliau dynol fod wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau. Mae'r deddfau hyn yn nodi rhwymedigaethau'r llywodraeth a darparwyr gwasanaeth i amddiffyn bywydau, urddas, lles a rhyddid pobl. Maent yn darparu fframwaith ymarferol i lywio penderfyniadau ynghylch cynnal a chydbwyso ein hystod lawn o hawliau, gan helpu i asesu effaith cyfyngiadau ac a ydynt yn gymesur ac yn briodol i anghenion unigol. Un o egwyddorion pwysig cyfraith cydraddoldeb a hawliau dynol yw y dylid gwneud pob ymdrech i gynnwys pobl mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae gwrando ar brofiadau byw pobl hŷn ac anabl a dysgu ohonynt yn hanfodol wrth i ni symud ymlaen.
3. Mae'r briff hwn yn disgrifio'r materion allweddol sydd wedi codi mewn cartrefi gofal, ac yn nodi'r fframwaith cydraddoldeb a hawliau dynol y dylid ei weithredu i'w hatal rhag digwydd eto ac i wella arfer. Y bwriad yw cefnogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a darparwyr i gydymffurfio â'u rhwymedigaethau ac ymgorffori ystyriaethau cydraddoldeb a hawliau dynol yn yr ymateb parhaus i'r pandemig. Trwy gydol y briff rydym yn defnyddio 'cartrefi gofal' i gyfeirio at bob math o ofal cymdeithasol preswyl i oedolion, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer pobl hŷn ac oedolion anabl o unrhyw oedran. Mae'r wybodaeth hon yn ymwneud â Chymru. Rydym hefyd wedi cyhoeddi [briff ar goronafeirws mewn cartrefi gofal yn Lloegr](#).

## Materion sydd wedi codi mewn cartrefi gofal<sup>1</sup>

---

### Marwolaethau oherwydd COVID-19

4. Bu farw bron i 19,400 o breswylwyr cartrefi gofal ledled Cymru a Lloegr gyda COVID-19 hyd at 12 Mehefin, gan gyfrif am bron i 40 y cant o'r holl farwolaethau o'r feirws.<sup>2</sup> At ei gilydd, mae marwolaethau mewn cartrefi gofal wedi cynyddu bron i 66 y cant yng Nghymru o gymharu â blynyddoedd blaenorol.<sup>3</sup> I ddechrau, ni chynhwyswyd marwolaethau o COVID-19 mewn cartrefi gofal mewn adroddiadau swyddogol.<sup>4</sup>
5. Fe fu marwolaethau anghymesur ymhlith rhai grwpiau, gan gynnwys y rhai 65 oed a hŷn,<sup>5</sup> y rhai o grwpiau Du ac Asiaidd<sup>6</sup> a dynion.<sup>7</sup> Roedd gan bron i hanner y

---

<sup>1</sup> Fe wnaethom gynnal trafodaeth bord gron ag ystod o randdeiliaid ar 9 Medi 2020 i gasglu tystiolaeth ar y materion a ddaeth i'r amlwg yn ystod ton gyntaf y pandemig a barn ar yr argymhellion ymarferol sydd eu hangen i liniaru'r rhain yn y dyfodol. Ymhlith y rhanddeiliaid roedd: Gofal Cymdeithasol Cymru, Cymdeithas Alzheimers, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Cymorth Canser Macmillan, Age Cymru, Senedd Cymru i Bobl Hŷn, Y Coleg Nyrsio Brenhinol, Arolygiaeth Gofal Cymru ac Anabledd Cymru. Fe wnaethom ymgysylltu ar wahân â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Fforwm Gofal Cymru. Lle tynnir y dystiolaeth yn ein briff o'r ymgysylltu hwn, rydym yn dyfynnu 'ymgysylltu â rhanddeiliaid EHRC Cymru' mewn troednodiau dilynol.

<sup>2</sup> Mae'r dadansoddiad diweddaraf o effaith coronafeirws ar y sector gofal am y cyfnod hyd at 12 Mehefin. ONS (3 Gorffennaf 2020), '[Marwolaethau sy'n cynnwys COVID-19 yn y sector gofal, Cymru a Lloegr: marwolaethau yn digwydd hyd at 12 Mehefin 2020 ac wedi'u cofrestru hyd at 20 Mehefin 2020 \(dros dro\)](#)', ffigur 2; ac ONS (23 Mehefin 2020), '[Cymhariaeth o achosion marwolaeth wythnosol yng Nghymru a Lloegr: hyd at yr wythnos yn dod i ben 26 Mehefin 2020](#)', ffigur 1. Yn y cyfnod hwn, adroddwyd bod 46,425 o farwolaethau yn ymwneud â COVID-19 yn Lloegr, gan gynnwys 18,562 ymhlith preswylwyr cartrefi gofal (39.8 y cant) ac adroddwyd am 2,370 o farwolaethau yn ymwneud â Covid-19 yng Nghymru, gan gynnwys 826 ymhlith preswylwyr cartrefi gofal (34.9 y cant). Mae hyn yn cynnwys preswylwyr cartrefi gofal a fu farw mewn cartrefi gofal ac mewn ysbytai. Diffiniad yr ONS o 'gynnwys COVID-19' yw lle y soniwyd am COVID-19 yn unrhyw le ar y dystysgrif marwolaeth, p'un ai fel achos sylfaenol ai peidio.

<sup>3</sup> Bell, D. et al. (29 Awst 2020), '[Marwolaethau COVID-19 a gofal tymor hir: cymhariaeth yn y DU](#)', Rhwydwaith Polisi Gofal Hirdymor Rhyngwladol. Mae'r dadansoddiad yn cymharu nifer y marwolaethau yn ystod y pandemig â marwolaethau wythnosol cyfartalog yn ystod y cyfnod 5 mlynedd blaenorol, fel mesur o 'farwolaethau gormodol'. Mae'r dull hwn yn delio â marwolaethau wedi'u camddiagnosio a marwolaethau sydd ag achosion uniongyrchol eraill ond na fyddent wedi digwydd heb y pandemig.

<sup>4</sup> Blackall, M. (18 Ebrill 2020), '[Gallai marwolaethau Covid-19 mewn Cartrefi Gofal y DU fod 'bum gwaith gymaint ag amcangyfrif y llywodraeth](#)', The Guardian.

<sup>5</sup> ONS (3 Gorffennaf 2020), '[Marwolaethau sy'n cynnwys COVID-19 yn y sector gofal, Cymru a Lloegr: marwolaethau yn digwydd hyd at 12 Mehefin 2020 ac wedi'u cofrestru hyd at 20 Mehefin 2020 \(dros dro\)](#)', ffigur 8.

<sup>6</sup> Mae tystiolaeth ehangach ledled Cymru a Lloegr yn awgrymu bod pobl o rai grwpiau ethnig mewn risg uwch o COVID-19, gweler SYG (7 Mai 2020), '[marwolaethau cysylltiedig â Choronafeirws \(COVID-19\) yn ôl grŵp ethnig, Cymru a Lloegr: 2 Mawrth 2020 i 10 Ebrill 2020](#)'.

<sup>7</sup> ONS (3 Gorffennaf 2020), '[Marwolaethau yn ymwneud â COVID-19 yn y sector gofal, Cymru a Lloegr: marwolaethau yn digwydd hyd at 12 Mehefin 2020 ac wedi'u cofrestru hyd at 20 Mehefin 2020 \(dros dro\)](#)', ffigur 5.



preswylwyr cartrefi gofal a fu farw ddementia neu glefyd Alzheimer.<sup>8</sup> Mae bylchau data'n parhau yng Nghymru ac ni fu'n bosibl dadansoddi marwolaethau ar gyfer yr holl nodweddion gwarchoddedig.

### Derbyniadau a phrofi

6. Yng nghamau cyntaf y pandemig, cyfarwyddodd Llywodraeth Cymru Fyrddau Iechyd Lleol i ryddhau pob claf yr ystyrir ei fod yn ffit yn feddygol fel y gallent ryddhau gallu'r GIG i drin cleifion COVID-19.<sup>9</sup> Rhyddhawyd rhai unigolion o ysbytai i ofal preswyl ond nid oedd yn ofynnol profi cyn eu derbyn.<sup>10</sup> Mae hyn wedi'i nodi fel ffactor posib wrth ledaenu coronafeirws i gartrefi gofal.<sup>11</sup> Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau sy'n ei gwneud yn ofynnol profi pob unigolyn sy'n cael ei ryddhau o'r ysbyty i gartrefi gofal, ni waeth a gawsant eu derbyn i'r ysbyty gyda COVID-19 ai peidio.<sup>12</sup> Er gwaethaf gwelliannau mwy diweddar mewn capasiti profi,<sup>13</sup> mae darparwyr wedi parhau i riportio anawsterau ar lawr gwlad ac oedi cyn cael canlyniadau.<sup>14</sup>
7. Gall gofynion i breswylwyr ynysu yn absenoldeb profion neu ganlyniadau wedi'u cadarnhau gael effaith sylweddol ar eu hiechyd meddwl a chorfforol. Dywedodd un rheolwr cartref gofal yng Nghymru fod ynysu yn cael "effaith enfawr ar iechyd a lles meddwl", gan arwain at lai o symudedd a phobl yn bwyta ac yn yfed llai.<sup>15</sup>

### Cyfarpar Diogelu Personol (PPE)

8. Roedd adroddiadau eang o fynediad annigonol i PPE mewn cartrefi gofal yn ystod ton gyntaf y pandemig.<sup>16</sup> Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ddarparu

---

<sup>8</sup> ONS (3 Gorffennaf 2020), ['Marwolaethau yn ymwneud â COVID-19 yn y sector gofal, Cymru a Lloegr: marwolaethau yn digwydd hyd at 12 Mehefin 2020 ac wedi'u cofrestru hyd at 20 Mehefin 2020 \(dros dro\)'](#).

<sup>9</sup> Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru (Ebrill 2020), ['Gofynion Gwasanaeth Rhyddhau Ysbyty COVID-19 \(Cymru\)'](#).

<sup>10</sup> Gweler e.g. Bell, D. et al. (29 Awst 2020), ['Marwolaethau COVID-19 a gofal tymor hir: cymhariaeth yn y DU'](#), Rhwydwaith Polisi Gofal Hirdymor Rhyngwladol.

<sup>11</sup> Ibid.

<sup>12</sup> Llywodraeth Cymru (7 Mai 2020), ['Polisi profi cartrefi gofal' \[cyrchwyd 12 Hydref\]](#).

<sup>13</sup> Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i brofi preswylwyr a staff cartrefi gofal yn rheolaidd. Llywodraeth Cymru (2 Mai 2020), ['Datganiad ysgrifenedig: Profi coronafirws mewn cartrefi gofal'](#) a Llywodraeth Cymru (7 Mai 2020), ['Polisi profi cartrefi gofal' \[cyrchwyd 12 Hydref\]](#).

<sup>14</sup> Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Mehefin 2020), ['Lleisiau cartrefi gofal: Cipolwg ar fywyd mewn cartrefi gofal yng Nghymru yn ystod Covid-19'](#). Gwelwyd tystiolaeth o'r pwynt hwn hefyd yn ein hymgysylltiad rhanddeiliaid ein hunain.

<sup>15</sup> Ibid.

<sup>16</sup> Senedd Cymru, Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ['Ymchwiliad i effaith achosion Covid-19, a'i reolaeth; ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: adroddiad 1'](#), Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Mehefin 2020), ['Lleisiau cartrefi gofal: Cipolwg ar fywyd mewn cartrefi gofal yng Nghymru yn ystod Covid-19'](#); gweler hefyd Jones-Berry, S. (6 Mai 2020), ['Dim masgiau PPE ar ôl ar gyfer cartrefi gofal'](#)

cyflenwadau PPE i awdurdodau lleol, ac mae cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol yn rheoli ac yn cydlynu dosbarthiad i ddarparwyr gofal yn eu hardaloedd.<sup>17</sup> Fe ganfu ein hymgyssylltiad â rhanddeiliaid fod darparwyr gofal yn cael anawsterau wrth gael PPE digonol yn ystod camau cynnar y pandemig.<sup>18</sup> Rydym felly yn croesawu cyhoeddiad diweddar Llywodraeth Cymru sy'n ailddatgan eu hymrwymiad i ddarparu PPE am ddim i gartrefi gofal, ac yn nodi ymagwedd Cynllun Gweithredu Cartrefi Gofal bod cytundeb lefel gwasanaeth wedi'i roi ar waith rhwng Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i ddarparu PPE ar gyfer gofal cymdeithasol o fewn ardaloedd awdurdodau lleol, gan gynnwys darparwyr preifat, annibynnol a thrydydd sector.<sup>19</sup>

### Tynnu gofal iechyd yn ôl

9. Ail-flaenoriaethwyd adnoddau gofal iechyd yn ystod y don gyntaf i ymdopi ag effaith uniongyrchol y pandemig, gan arwain at dynnu meddygon teulu a gwasanaethau gofal iechyd arferol eraill o gartrefi gofal.<sup>20</sup> Mae tystiolaeth yn awgrymu bod hyn wedi cael effaith ehangach ar iechyd preswylwyr, gan gyfrannu o bosibl at nifer y marwolaethau 'gormodol' yn y cyfnod hwn.<sup>21</sup>
10. Daeth adroddiadau hynod bryderus i'r amlwg bod hysbysiadau 'peidiwch â dadebru' yn cael eu gweithredu mewn ffordd gyffredinol i gynlluniau gofal pobl hŷn ac anabl heb ymgynghori.<sup>22</sup> Yn dilyn hynny, cyhoeddodd y Prif Swyddog Meddygol a'r Prif Swyddog Nyrsio lythyr ar y cyd yn nodi na ddylai oedran, anabledd neu

---

[na staff gofal cartref](#)', NursingStandard; a Savage, M. (9 Mai 2020), '[Mae cartrefi gofal y DU yn sgrialu i brynu eu PPE eu hunain wrth i ddanfoniadau cenedlaethol fethu](#)', The Guardian.

<sup>17</sup> Gweler Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Mehefin 2020), '[Leisiau cartrefi gofal: Cipolwg ar fywyd mewn cartrefi gofal yng Nghymru yn ystod Covid-19](#)'.

<sup>18</sup> Ibid.

<sup>19</sup> Llywodraeth Cymru (2020), '[Cynllun Gweithredu Cartrefi Gofal: Crynodeb o'r Cynnydd](#)'.

<sup>20</sup> Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Mehefin 2020), '[Care Home Voices: Cipolwg ar fywyd mewn cartrefi gofal yng Nghymru yn ystod Covid-19](#)'. Amnest Rhyngwladol (Hydref 2020), '[Fel eu bod yn Aberthadwy: methiant Llywodraeth y DU i amddiffyn pobl hŷn mewn cartrefi gofal yn ystod pandemig Covid-19](#)', t. 23; Cymdeithas Alzheimer's (13 Mai 2020), '[Cartrefi gofal 'wedi'u gadael i'w hamddiffyn eu hunain' yn erbyn coronafeirws](#)'.

<sup>21</sup> Bell, D. et al. (29 Awst 2020), '[Marwolaethau COVID-19 a gofal tymor hir: cymhariaeth yn y DU](#)', Rhwydwaith Polisi Gofal Hirdymor Rhyngwladol. Rydym yn trafod yr effeithiau'n fanylach yn yr adran ar yr hawl i iechyd.

<sup>22</sup> Newyddion BBCs (2020) '[Coronafeirws: Ymddiheuriad meddygfa meddygon teulu dros ffurflen 'peidiwch â dadebru](#)'. Gweler hefyd: [Datganiad](#) OPC/EHRC (Gorffennaf 2020). Gweler hefyd: Senedd Cymru, Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Gorffennaf 2020) '[Ymchwiliad i effaith achosion Covid-19, a'i reolaeth; ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru: adroddiad 1](#)'

gyflyrau tymor hir fyth fod yn unig reswm dros gyhoeddi gorchymyn 'peidiwch â dadebru' yn erbyn dymuniadau unigolyn.<sup>23</sup>

## Cyfyngiadau ar ymweliadau

11. Rhoddwyd cyfyngiadau cyffredinol ar ymweliadau â chartrefi gofal yn ystod ton gyntaf y pandemig, a godwyd dim ond pan ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at gartrefi gofal ar 5 Mehefin yn cynghori ar sut y gallant hwyluso ymweliadau awyr agored a chyhoeddwyd canllawiau ar 25 Mehefin.<sup>24</sup> Roedd y canllawiau i gartrefi gofal yn darparu mwy o fanylion am ystyriaethau ar gyfer hwyluso ymweliadau awyr agored, a chyngor i hwyluso ymweliadau dan do mewn amgylchiadau eithriadol ac ar seiliau tosturiol. Rydym yn croesawu datganiadau Gweinidogol diweddar a chyngor Llywodraeth Cymru i gartrefi gofal y gwneir unrhyw benderfyniadau i gyfyngu ar ymweliadau dim ond pan fydd hynny'n hollol angenrheidiol a dylent gynnwys timau amlasiantaethol.<sup>25</sup> Rydym yn dal i bryderu, fodd bynnag, fod cyfyngiadau coronafeirws lleol yn arwain at neu y byddant yn arwain at ataliadau cyffredinol o ymweliadau â chartrefi gofal ar draws y meysydd hynny.

## Y fframwaith cydraddoldeb a hawliau dynol

---

12. Fe ddaw'r fframwaith cydraddoldeb a hawliau dynol ar gyfer cartrefi gofal yn ystod y pandemig o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Hawliau Dynol 1998, cytuniadau a darpariaethau hawliau dynol rhyngwladol mewn deddfwriaeth iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd llawer o'r materion sydd wedi codi mewn cartrefi gofal yn ymwneud cynnwys hawliau sy'n gorgyffwrdd.

## Deddf Cydraddoldeb 2010

---

13. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 ('y Ddeddf Cydraddoldeb') yn amddiffyn unigolion rhag gwahaniaethu ac yn hyrwyddo cymdeithas decach a mwy cyfartal. Er bod COVID-19 yn gosod heriau iechyd cyhoeddus digynsail, nid yw'r Ddeddf Cydraddoldeb wedi'i diwygio na'i diddymu. Felly rhaid i bob un sydd â dyletswydd ac sydd â rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb barhau i weithredu'n gyfreithlon, gan gymryd y camau angenrheidiol i atal gwahaniaethu anghyfreithlon a darparu gwasanaethau ag anghenion defnyddwyr mewn golwg.

---

<sup>23</sup> Prif Swyddog Meddygol a Phrif Swyddog Nyrsio (17 Ebrill 2020). ['Llythyr ar y cyd gan y Prif Swyddog Meddygol a'r Prif Swyddog Nyrsio ar hysbysiadau "peidiwch â dadebru"'](#).

<sup>24</sup> Llywodraeth Cymru (2020) [Datganiad Ysgrifenedig Ymweliadau â chartrefi gofal: arweiniad i ddarparuwr](#)

<sup>25</sup> Llywodraeth Cymru (2020): [diweddariad ar ymweld â chartrefi gofal](#)

## Nodweddion gwarchoddedig

14. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn amddiffyn pobl rhag gwahaniaethu ar sail naw nodwedd warchoddedig: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.<sup>26</sup> Bydd y mwyafrif o breswylwyr cartrefi gofal yn bodloni diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb o anabledd.<sup>27</sup> Bydd y mwyafrif mewn grwpiau oedran hŷn, er bod nifer o bobl oed gweithio a phobl ifanc iau anabl hefyd yn byw yn y lleoliadau hyn.

## Atal gwahaniaethu

15. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn gwahardd gwahaniaethu uniongyrchol (lle mae rhywun yn cael ei drin yn wahanol oherwydd nodwedd warchoddedig) a gwahaniaethu anuniongyrchol (lle mae polisi'n berthnasol 'yn niwtral' i bob grŵp ond yn rhoi grŵp penodol dan anfantais). Ni ellir cyfiawnhau gwahaniaethu uniongyrchol (ac eithrio gwahaniaethu ar sail oedran) ac mae bob amser yn anghyfreithlon os nad oes eithriad penodol yn berthnasol.<sup>28</sup> Gellir cyfiawnhau gwahaniaethu anuniongyrchol (ac felly byddai'n gyfreithlon), ond dim ond os yw'n ffordd gymesur o gyflawni nod cyfreithlon.<sup>29</sup>
16. Mae'r Ddeddf hefyd yn gwahardd gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd (lle mae person anabl yn cael ei drin yn anffafriol - yn hytrach nag yn llai ffafriol nag un arall - neu'n cael ei roi dan anfantais oherwydd rhywbeth sy'n ymwneud â'i anabledd). Dim ond os yw'n ffordd gymesur o gyflawni nod cyfreithlon y mae gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd yn gyfreithlon.<sup>30</sup>
17. Mae'n ddyletswydd ar gyflogwyr, darparwyr gwasanaeth a'r rheini sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus i wneud addasiadau rhesymol fel y gall pobl anabl

---

<sup>26</sup> Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (8 Ionawr 2019), '[Nodweddion gwarchoddedig](#)' [cyrchwyd 7 Hydref 2020].

<sup>27</sup> Mae adran 6 y Ddeddf Cydraddoldeb yn diffinio anabledd fel nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith niweidiol sylweddol a hirdymor ar eich gallu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. Bydd llawer o bobl hŷn mewn gofal preswyl yn bodloni'r diffiniad hwn. Er enghraifft, mae Age UK yn nodi bod amcangyfrif o 70 y cant o bobl mewn cartrefi gofal yn y DU yn byw â dementia, 75 y cant â cholled clyw a 60 y cant â chyflyrau iechyd meddwl. Age UK (Mai 2019), '[Bywyd diweddarach yn y Deyrnas Unedig 2019](#)'.

<sup>28</sup> Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (1 Medi 2014), '[Deddf Cydraddoldeb 2010: canllawiau cryno ar wasanaethau, swyddogaethau cyhoeddus a chymdeithasau](#)' [cyrchwyd 8 Hydref 2020].

<sup>29</sup> Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (25 Tachwedd 2019), '[Beth yw gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol?](#)' [Cyrchwyd 8 Hydref 2020].

<sup>30</sup> Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (18 Chwefror 2020), '[Gwahaniaethu ar sail anabledd](#)' [cyrchwyd ar 8 Hydref 2020].

gael mynediad at wasanaethau, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, mor hawdd â phobl nad ydynt yn anabl.<sup>31</sup> Mae tair rhan i'r ddyletswydd:

- **Newid polisi neu'r ffordd y mae rhywbeth yn cael ei wneud** - er enghraifft, newid y ffordd y darperir gofal i rywun sydd ag anghenion gwahanol i breswylwyr eraill. Mae hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth yn fformat hygyrch
- **Gwneud newidiadau i'r amgylchedd adeiledig** - er enghraifft, sicrhau bod lleoedd cyhoeddus yn hygyrch i'r holl breswylwyr a bod addasiadau angenrheidiol wedi'u gwneud ar gyfer preswylwyr unigol
- **Darparu cymhorthion ategol a gwasanaethau** - er enghraifft, cyflwyno cyfarpar newydd megis dolen glyw, neu darparu gymorth ychwanegol (gwasanaethau ategol) lle mae rhywun arall yn cael ei ddefnyddio i gynorthwyo'r person anabl, megis darllenwydd, cyfieithydd iaith arwyddion neu weithiwr Cymorth, a darparu gwybodaeth mewn fformat hygyrch fel print bras neu sain. Rhaid peidio â throsglwyddo costau addasiad rhesymol i'r ddefnyddiwr gwasanaeth.

18. Mae tystiolaeth bod rhai pobl hŷn ac anabl mewn cartrefi gofal yn cael eu rhoi mewn mwy o berygl o niwed gan benderfyniadau a gymerir mewn ymateb i goronafeirws. Er enghraifft, mae risg o drosglwyddo asymptomatig os mai'r polisi yw defnyddio PPE gyda thriogion symptomatig yn unig.<sup>32</sup> Er y byddai hyn yn effeithio ar yr holl breswylwyr (a staff), efallai mai'r rhai sydd mewn mwy o berygl o haint neu salwch difrifol, megis pobl â dementia<sup>33</sup> a'r rhai o leiafrifoedd ethnig,<sup>34</sup> a fyddai dan anfantais arbennig. Gallai'r grwpiau hyn hefyd gael eu heffeithio'n anghymesur gan gapasiti a pholisïau profi cyfyngedig sy'n caniatáu derbyniadau i gartrefi gofal heb brofi effeithiol.

19. Yn ogystal â'r risgiau o'r feirws ei hun, mae penderfyniadau i reoli'r ymlediad yn debygol o effeithio ar bobl â nodweddion gwarchoddedig yn wahanol. Er enghraifft, gallai gorfodi ynysu a phrofi beri gofid arbennig i rywun ag anabledau dysgu neu

---

<sup>31</sup> Ibid.

<sup>32</sup> Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Mehefin 2020), '[Lleisiau cartrefi gofal: Cipolwg ar fywyd mewn cartrefi gofal yng Nghymru yn ystod Covid-19](#)'.

<sup>33</sup> Mae dementia a chlefyd Alzheimer's ymhlith y cyflyrau sylfaenol sy'n effeithio ar y gyfradd marwolaethau ar gyfer Covid-19. Raleigh, V. (19 Awst 2020), '[Marwolaethau o Covid-19 \(coronafeirws\): sut maent yn cael eu cyfrif a beth maent yn ei ddangos?](#)', Cronfa'r Brenin.

<sup>34</sup> Mae tystiolaeth ehangach ledled Cymru a Lloegr yn awgrymu bod pobl o rai grwpiau ethnig mewn mwy o risg o Covid-19, gweler ONS (7 Mai 2020), '[marwolaethau cysylltiedig â Choronafeirws \(COVID-19\) yn ôl grŵp ethnig, Cymru a Lloegr: 2 Mawrth 2020 i 10 Ebrill 2020](#)'.

awtistiaeth a'r rhai â dementia.<sup>35</sup> Yn yr un modd, gall PPE achosi problemau i rai grwpiau - er enghraifft y rhai â cholled clyw sy'n dibynnu ar ddarllen gwefusau, a phobl â dementia a allai fod yn ofidus os na allant ddarllen ciwiau emosiynol trwy fwgwd.<sup>36</sup>

### **Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus (PSED)**

20. Mae'r PSED yn ceisio prif ffrydio ystyriaethau cydraddoldeb wrth i awdurdodau cyhoeddus wneud penderfyniadau o ddydd i ddydd.<sup>37</sup> Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus roi sylw dyledus yn barhaus i'r angen i (a) ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, (b) hyrwyddo cyfle cyfartal ac (c) meithrin cysylltiadau da rhwng y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig a'r rhai nad ydynt yn eu rhannu.<sup>38</sup> Yng nghyd-destun gofal cymdeithasol, mae'r PSED yn berthnasol i awdurdodau cyhoeddus (megis adrannau'r Llywodraeth, awdurdodau lleol a chyrrff y GIG) a'r rhai sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus (er enghraifft lle mae awdurdod lleol yn contractio gwasanaeth allan).<sup>39</sup>
21. Mae rhoi sylw dyledus i hyrwyddo cydraddoldeb yn cynnwys: dileu neu leihau anfanteision y mae pobl yn eu dioddef oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig; cymryd camau i ddiwallu anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig lle mae'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill, gan gynnwys ystyried anabledd; ac annog pobl o grwpiau gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.<sup>40</sup> Mae meithrin cysylltiadau da yn golygu mynd i'r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth rhwng pobl o wahanol grwpiau. Gall cydymffurfio â'r ddyletswydd gynnwys trin rhai pobl yn fwy ffafriol nag eraill.
22. Er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd, dylai awdurdodau cyhoeddus a darparwyd gofal asesu effaith polisïau wrth iddynt gael eu datblygu a monitro'r effaith

---

<sup>35</sup> Cymdeithas Alzheimer's (2020), '[Sut yr effeithiwyd ar gartrefi gofal yn ystod y pandemig coronafeirws](#)' [cyrchwyd 9 Hydref 2020]; Cymdeithas Geriatreg Prydain (2020), '[COVID-19: Rheoli'r pandemig COVID-19 mewn cartrefi gofal i bobl hŷn](#)' [cyrchwyd 12 Hydref].

<sup>36</sup> Ers hynny mae rhai cartrefi gofal wedi darparu PPE gyda phaneli clir i oresgyn y materion hyn. Gweler Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Mehefin 2020), '[Lleisiau Cartrefi Gofal: Cipolwg ar fywyd mewn cartrefi gofal yng Nghymru yn ystod Covid-19](#)'.

<sup>37</sup> Cymdeithas Alzheimer's (2020), '[Sut yr effeithiwyd ar gartrefi gofal yn ystod y pandemig coronafeirws](#)' [cyrchwyd 9 Hydref 2020].

<sup>38</sup> [Deddf Cydraddoldeb 2010](#), a.149.

<sup>39</sup> Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ein canllaw technegol ar y PSED. Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (19 Chwefror 2019), '[Canllawiau technegol y Ddeddf Cydraddoldeb](#)'.

<sup>40</sup> Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (20 Ebrill 2020), '[Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus](#)' [cyrchwyd 9 Hydref 2020].

wirioneddol wrth iddynt gael eu gweithredu.<sup>41</sup> Dylid gwneud pob ymdrech i gynnwys pobl mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, a pho fwyaf arwyddocâd y penderfyniad, y mwyaf ddylai'r ymdrech fod.<sup>42</sup> Mae'r camau hyn yn hanfodol bwysig i atal gwahaniaethu, hyrwyddo cydraddoldeb a mynd i'r afael ag anfantais, a chefnogi diwylliant o dryloywder ac atebolrwydd.<sup>43</sup>

23. Dylai asesiadau gael eu seilio ar y dystiolaeth orau sydd ar gael. Os nad oes gan awdurdodau cyhoeddus a darparwyr gofal y dystiolaeth sydd ei hangen arnynt i gyflawni'r ddyletswydd rhaid iddynt gymryd camau i lenwi'r bylchau, gan gynnwys casglu ffynonellau data newydd a chomisiynu cyngor neu ddadansoddiad allanol. Lle amharwyd ar ddulliau casglu data arferol yn ystod y pandemig, dylai awdurdodau cyhoeddus arloesi i ddod o hyd i ddewisiadau amgen.<sup>44</sup> Gall cynnwys defnyddwyr gwasanaeth a grwpiau eraill yr effeithir arnynt hefyd fod yn ffordd allweddol o ddeall yr effaith ar gydraddoldeb a'r anfanteision y mae gwahanol grwpiau yn eu hwynebu.
24. Mae'n bwysig wrth ddiwallu'r PSED i ystyried effaith gronnol cyfres o benderfyniadau a all ymddangos ar eu pennau eu hunain yn gymharol fach ond sy'n cyd-daro i greu problem ddifrifol. Er enghraifft, o'u cymryd gyda'i gilydd, gall cyfyngiadau ar ymweliadau teulu, newidiadau mewn arferion gofal arferol a llai o fynediad at wasanaethau gofal sylfaenol gael effaith sylweddol ar iechyd corfforol a meddyliol unigolion ac effaith anghymesur ar rai grwpiau.<sup>45</sup>
25. Nid yw'n glir o'r dystiolaeth sydd ar gael sut y daethpwyd i rai penderfyniadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ynghylch yr ymateb i COVID-19 mewn cartrefi gofal ac a ystyriwyd yr effaith ar gydraddoldeb. Efallai fod hyn wedi arwain at fethiannau i gydymffurfio â'r PSED. Rydym yn pryderu a yw data digonol yn cael

---

<sup>41</sup> Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ein canllaw technegol ar y PSED. Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (19 Chwefror 2019), '[Canllawiau technegol y Ddeddf Cydraddoldeb](#)'.

<sup>42</sup>Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (19 Chwefror 2019), '[Canllawiau technegol y Ddeddf Cydraddoldeb](#)', para 5.27.

<sup>43</sup> Mae rhwymedigaethau i adrodd ar sut y cydymffurfiwyd â'r PSED yn berthnasol ledled Cymru, Lloegr a'r Alban, er bod y gofynion penodol yn wahanol ym mhob gwlad. Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (20 Ebrill 2020), '[Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus](#)' [cyrchwyd 9 Hydref 2020].

<sup>44</sup> Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2020) '[Ailadeiladu Cymru mwy cyfartal a thecach: canolbwyntio ar effaith anghyfartal y pandemig coronafeirws](#)'. EHRC (2020) '[Ailadeiladu Cymru mwy cyfartal a thecach: canolbwyntio ar effaith anghyfartal y pandemig coronafeirws](#)'.

<sup>45</sup> Cymdeithas Alzheimer's (2020), '[Sut yr effeithiwyd ar gartrefi gofal yn ystod y pandemig coronafeirws](#)' [cyrchwyd 9 Hydref 2020].

eu casglu i ddeall a lliniaru effeithiau posibl neu wirioneddol fframweithiau polisi parhaus a phenderfyniadau ynghylch darparu gwasanaeth ar bob lefel.<sup>46</sup>

### Y dyletswyddau penodol

26. Mae nifer o ddyletswyddau cydraddoldeb penodol yng Nghymru sy'n cefnogi cyrff i gydymffurfio â'r PSED. Y rhai mwyaf perthnasol yw'r gofynion i ymgysylltu â grwpiau yr effeithir arnynt (rheoliad 5), sicrhau sylfaen dystiolaeth gadarn (rheoliad 7) a chyhoeddi asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb (EIAs) mewn fformat hygyrch (rheoliad 8 (1) (d)). Mae'r gofynion hyn yn dal i fod yn berthnasol yng nghyd-destun coronafeirws.
27. Mae adborth gan ein rhanddeiliaid yn awgrymu bod diffyg ymgysylltu â phobl hŷn ac anabl, ac nad oedd eu lleisiau a'u straeon yn cael eu clywed na'u hadlewyrchu mewn penderfyniadau polisi.<sup>47</sup> Fe wnaethon nhw ddweud wrthym hefyd fod cyfathrebiadau weithiau'n ddryslyd neu'n aneglur, yn wrthgyferbyniol neu'n cael eu cam-amseru.
28. Yn ystod y don gyntaf o goronafeirws, methodd Llywodraeth Cymru â darparu a chyhoeddi asesiadau cadarn o'r effaith ar gydraddoldeb i ddangos bod ei hymagwedd yn gymesur a bod mesurau effeithiol ar waith i liniaru unrhyw effaith wahaniaethol. Mae nifer o asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ac asesiadau o'r effaith integredig wedi'u cyhoeddi'n ôl-weithredol ers hynny. Er bod croeso i hyn, ac mae'n gwneud gwahaniaeth wrth arddangos sut yr ystyriwyd tystiolaeth briodol a bod mesurau lliniaru addas wedi'u nodi, rydym wedi nodi nifer o themâu cyffredin ar gyfer gwella. Mae'r rhain yn ymwneud â phryd y cawsant eu cyhoeddi, camau lliniaru, gwerthuso ac ymgysylltu. Rydym wedi cynnwys argymhellion yn y meysydd hyn i helpu i wella arfer.

---

<sup>46</sup> Ni chynhwyswyd marwolaethau cartrefi gofal mewn adroddiadau swyddogol tan 29 Ebrill, ac ar hyn o bryd, mae'r dadansoddiad diweddaraf o Covid-19 yn y sector gofal hyd at 20 Mehefin 2020. Nid yw adroddiadau'r ONS yn cynnwys data ethnigrwydd na dadansoddiad o anabledd yn ôl math o nam. Gweler Raleigh, V. (19 Awst 2020), '[Marwolaethau o Covid-19 \(coronafirws\): sut maen nhw'n cael eu cyfrif a beth maen nhw'n ei ddangos?](#)', Cronfa'r Brenin; SYG (3 Gorffennaf 2020), '[Marwolaethau yn ymwneud â COVID-19 yn y sector gofal, Cymru a Lloegr: marwolaethau yn digwydd hyd at 12 Mehefin 2020 ac wedi'u cofrestru hyd at 20 Mehefin 2020 \(dros dro\)](#)'; ONS (6 Hydref 2020), '[Marwolaethau a gofrestrir yn wythnosol yng Nghymru a Lloegr, dros dro: wythnos yn dod i ben 25 Medi 2020](#)'.

<sup>47</sup> Ymgysylltu â rhanddeiliaid gan EHRC Cymru.



## Deddf Hawliau Dynol 1998

---

29. Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 (HRA) yn nodi'r hawliau a'r rhyddid sylfaenol y mae gan bawb hawl iddynt. Mae'n ymgorffori'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yng nghyfraith ddomestig y DU. Ymhellach, mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a Deddf Cymru 2017 yn nodi na all Senedd Cymru/Welsh Parliament a Llywodraeth Cymru wneud penderfyniadau na deddfau nad ydynt yn cydymffurfio â deddfwriaeth hawliau dynol.<sup>48</sup> Rhaid i gyrrff cyhoeddus a chyrrff eraill sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus<sup>49</sup> beidio â gweithredu mewn ffordd sy'n anghydnaws â'r hawliau a nodir yn yr HRA, p'un a ydynt yn ymwneud â dylunio polisïau a gweithdrefnau neu'n darparu gwasanaethau'n uniongyrchol. Mae hyn yn cynnwys darparwyr cartrefi gofal sy'n darparu gofal a drefnir neu y telir amdano gan yr awdurdod lleol, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn rhannol neu'n llawn.<sup>50</sup>
30. Disgrifiwyd hawliau dynol gan cyrrff y Cenhedloedd Unedig fel rhai 'anwahanadwy a chyd-ddibynnol'.<sup>51</sup> Mae hyn yn golygu eu bod yn rhyng-gysylltiedig ac na ellir mwynhau un set o hawliau a rhyddid yn llawn heb eraill. Yn ystod y pandemig coronafeirws, mae'n bwysig i'r Llywodraeth ddeall effaith ehangach penderfyniadau a cheisio amddiffyn ein hystod lawn o hawliau lle bynnag y bo modd.

### Erthygl 2: yr hawl i fywyd

31. Mae'r hawl i fywyd yn 'anwadadwy', sy'n golygu bod rhaid ei chynnal hyd yn oed ar adegau o argyfwng.<sup>52</sup> Mae gan awdurdodau cyhoeddus rwymedigaethau cadarnhaol i amddiffyn bywyd, gan gynnwys dyletswydd i atal marwolaethau y gellir eu hosgoi ac i ymchwilio i farwolaethau y gallai'r Wladwriaeth neu awdurdod cyhoeddus fod yn gyfrifol amdanynt.<sup>53</sup> Dylai awdurdodau cyhoeddus hefyd

---

<sup>48</sup> Ymchwil y Senedd (4 Ebrill 2017), '[Yn gryno: canllaw cyflym i hawliau dynol yng Nghymru](#)'.

<sup>49</sup> Diffinnir swyddogaethau cyhoeddus fel 'swyddogaethau o natur gyhoeddus'.

<sup>50</sup> Gweler [Deddf Gofal 2014](#), a. 73.

<sup>51</sup> Gweler e.e. Swyddfa Uchel Gomisiynydd Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig (heb ddyddiad), '[Beth yw hawliau dynol?](#)' [Cyrchwyd: 12 Hydref 2020].

<sup>52</sup> Cyngor Ewrop (7 Ebrill 2020), '[Parchu democratiaeth, rheolaeth y gyfraith a hawliau dynol yn fframwaith argyfwng glanweithiol COVID-19: pecyn cymorth ar gyfer aelod-wladwriaethau](#)', tt. 4-5.

<sup>53</sup> Mae'r ddyletswydd hon yn aml yn cael ei chyflawni gan gwestau, ymchwiliadau'r heddlu neu ymchwiliadau cyhoeddus.

ystyried yr hawl i fywyd wrth wneud penderfyniadau a allai roi pobl mewn perygl neu effeithio ar eu disgwyliad oes.<sup>54</sup>

32. Efallai fod nifer o benderfyniadau yn yr ymateb i COVID-19 wedi arwain at fethiannau i amddiffyn yr hawl i fywyd yn ddigonol, gan gynnwys penderfyniadau ynghylch rhyddhau o'r ysbyty, derbyniadau i gartrefi gofal, blaenoriaethu profion a mynediad at ofal iechyd a thriniaeth angenrheidiol. Mae grwpiau cynrychioliadol wedi disgrifio sut yr oedd y cyfuniad o benderfyniadau yn yr ymateb i'r pandemig naill ai'n anwybyddu preswylwyr cartrefi gofal neu'n eu trin fel rhai aberthadwy.<sup>55</sup> Yng Nghymru, comisiynodd y Prif Weinidog adolygiad cyflym arbenigol annibynnol â ffocws o'r profiad gweithredol mewn cartrefi gofal rhwng Gorffennaf a Medi a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020.<sup>56</sup>

### **Erthygl 3: rhyddid rhag camdriniaeth**

33. Mae erthygl 3 yn amddiffyn pobl rhag artaith a thriniaeth annynol neu ddiraddiol. Mae'n hawl absoliwt, ac fel yr hawl i fywyd mae'n rhaid ei chynnal bob amser, gan gynnwys mewn argyfyngau. Ni ellir byth defnyddio diffyg adnoddau fel amddiffyniad ar gyfer camdriniaeth.

- Diffinnir artaith fel achos bwriadol o achosi dioddefaint meddyliol neu gorfforol difrifol a chreulon iawn.
- Triniaeth annynol yw'r hyn sy'n achosi dioddefaint corfforol neu feddyliol dwys, gan gynnwys cam-drin corfforol neu seicolegol difrifol mewn lleoliadau iechyd a gofal.<sup>57</sup> Mae'n cynnwys camdriniaeth ac esgeulustod bwriadol a ddiffinnir fel achos bwriadol o achosi dioddefaint meddyliol neu gorfforol difrifol a chreulon iawn.
- Mae triniaeth ddiraddiol yn driniaeth hynod waradwyddus a diurddas. Mae p'un a gyrhaeddir y trothwy hwn yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys hyd y driniaeth, ei heffeithiau ac iechyd neu 'fregusrwydd' yr unigolyn. Mae triniaeth ddiraddiol yn cynnwys camdriniaeth ac esgeulustod bwriadol.

---

<sup>54</sup> Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (15 Tachwedd 2018), '[Erthygl 2: hawl i fywyd](#)' [cyrchwyd 7 Hydref 2020].

<sup>55</sup> Silver Voices (6 Mai 2020), "' Wedi'u hanwybyddu ac yn aberthadwy": beth yw gwerth bywydau hŷn? (briff 30/20) '[heb ei gyhoeddi]. Gweler hefyd Amnest Rhyngwladol (Hydref 2020), '[Fel eu bod yn Aberthadwy: methiant Llywodraeth y DU i amddiffyn pobl hŷn mewn cartrefi gofal yn ystod y pandemig Covid-19](#)' a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Mehefin 2020), '[Lleisiau Cartrefi Gofal: Cipolwg ar fywyd mewn cartrefi gofal yng Nghymru yn ystod Covid-19](#)'.

<sup>56</sup> Llywodraeth Cymru (2020), '[Adolygiad cyflym ar gyfer cartrefi gofal mewn perthynas â COVID-19](#)'.

<sup>57</sup> Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (15 Tachwedd 2018), '[Erthygl 3: Rhyddid rhag artaith a thriniaeth annynol neu ddiraddiol](#)' [cyrchwyd 7 Hydref 2020].

34. Mae'r Pwyllgor Ewropeaidd er Atal Artaith (CPT) wedi nodi y gellir cannnfod bod amlygiad pobl hŷn i goronafeirws a "lefel eithafol o ddiodefaint" yn anghydnaws â rhwymedigaethau Erthygl 3 Llywodraeth y DU.<sup>58</sup> Mae gan ostyngiadau mewn mynediad at ofal iechyd arferol a chritigol, ac effaith feddyliol a chorfforol ynysu (gan gynnwys oherwydd cyfyngiadau ar ymweliadau a materion ynghylch gallu profi neu oedi) oll oblygiadau yn y cyd-destun hwn. Mae'r CPT yn glir y gall "lefel annigonol o ofal iechyd arwain yn gyflym at sefyllfaoedd sy'n dod o fewn cwmpas y term 'triniaeth annynol a diraddiol'."<sup>59</sup>
35. Mae llai o oruchwyliaeth wrth i arolygiadau gael eu hoedi a chyfyngir ar ymweliadau hefyd yn cynyddu'r risg y bydd toriadau Erthygl 3 ac y bydd cartrefi gofal yn gweithredu fel gwasanaethau caeedig.<sup>60</sup> Mae'r cyngor a'r hyblygrwydd rheoliadol a ddarparwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn ystod yr amser hwn wedi chwarae rhan bwysig wrth sicrhau lles preswylwyr.<sup>61</sup>
36. Gallai'r pwysau ar gartrefi gofal yn y cyfnod hwn, y gofid i breswylwyr a'r heriau wrth weithredu rheolaethau heintiau arwain at fwy o ddefnydd o ataliaeth. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddata cadarn ar ataliaeth yn y lleoliadau hyn felly nid yw'n bosibl gwneud asesiad na nodi tueddiadau. Cyfyngu yw unrhyw weithred a gyflawnir gyda'r pwrpas o gyfyngu ar symudiad, rhyddid a/neu gallu unigolyn i weithredu'n annibynnol.<sup>62</sup> Mae'n cynnwys mathau cemegol, mecanyddol a chorfforol o reoli, gorfodi ac ynysu gorfodol. Gallai defnyddio ataliaeth ar bobl mewn cartrefi gofal fod yn driniaeth annynol neu ddiraddiol os nad yw'n gymesur yn y sefyllfa ac yn hollol angenrheidiol i atal niwed.<sup>63</sup> Mae ataliaeth yn fwy tebygol o fod yn driniaeth annynol a diraddiol pan gaiff ei defnyddio ar grwpiau sydd mewn perygl penodol o niwed neu gam-drin.<sup>64</sup>

<sup>58</sup> Cyngor Ewrop (7 Ebrill 2020), '[Parchu democratiaeth, rheolaeth y gyfraith a hawliau dynol yn fframwaith argyfwng glanweithiol COVID-19: pecyn cymorth ar gyfer aelod-wladwriaethau](#)', t.5.

<sup>59</sup> Ibid.

<sup>60</sup> Fe wnaeth Arolygiaeth Gofal Cymru atal arolygiadau arferol ar 16 Mawrth ac ers hynny mae wedi symud i 'gyfnod adfer', gan ddefnyddio ffyrdd pell o weithio cyn belled ag y bo modd. Arolygiaeth Gofal Cymru (2020), '[Gwybodaeth ddiweddaraf am Coronavirus Nofel \(COVID-19\)](#)' [cyrchwyd 9 Hydref 2020].

<sup>61</sup> Llywodraeth Cymru (7 Hydref 2020), '[Adolygiad cyflym ar gyfer cartrefi gofal mewn perthynas â COVID-19](#)'.

<sup>62</sup> EHRC (2019), '[Fframwaith hawliau dynol ar gyfer ataliaeth](#)'. Mae gwahanu sy'n gyfystyr â chyfyngu ar eich hun (a ddiffinnir fel 22 awr y dydd neu'n hwy heb gyswllt dynol ystyrion) yn groes i safonau hawliau dynol fel y'u sefydlwyd gan Reolau Mandela. Swyddfa'r Cenhedloedd Unedig ar Gyffuriau a Throseddau (2015), '[Rheolau Lleiaf Safonol ar gyfer Trin Carcharorion \(Rheolau Nelson Mandela\)](#)'.

<sup>63</sup> Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (Mawrth 2019), '[Fframwaith hawliau dynol ar gyfer ataliaeth](#)'.

<sup>64</sup> Ibid.

## Erthygl 5: hawl i ryddid

37. Mae erthygl 5 yn amddiffyn unigolion rhag cael eu cadw'n fympwyol ac yn darparu hawl i herio enghraifft o gadw a allai fod yn anghyfreithlon.<sup>65</sup> Efallai na fydd gan rai pobl sydd angen cymorth, er enghraifft y rhai â dementia, y gallu i wneud penderfyniadau ynghylch eu gofal a'u triniaeth, gan gynnwys penderfyniadau ynghylch a ydynt yn symud i gartref gofal a beth sy'n digwydd pan maent yno - er enghraifft, eu trefniadau ac a ganiateir iddynt adael. Yn yr achosion hyn, gallai cyfyngu ar ryddid yr unigolyn olygu amddifadu rhyddid yn anghyfreithlon os nad oes mesurau diogelwch priodol ar waith.
38. Mae mesurau diogelu ar gyfer amddifadu o ryddid (DoLS) o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 yn ymateb i hyn trwy greu cyfres o wiriadau i sicrhau bod unrhyw gyfyngiadau yn angenrheidiol, yn briodol ac er budd gorau'r unigolyn. Mae'r Ddeddf yn darparu y dylid cefnogi pobl i wneud penderfyniadau cyn belled ag y bo modd, gan gynnwys trwy fynediad at eiriolaeth, ac y dylai unrhyw gyfyngiadau ar eu rhyddid fod yr opsiwn lleiaf cyfyngol sydd ar gael.<sup>66</sup>
39. Gallai rhai mesurau a gyflwynwyd i reoli COVID-19 mewn cartrefi gofal greu cyfyngiadau newydd ar ryddid pobl - er enghraifft gofynion i ynysu, cadw pellter cymdeithasol neu gael profion. Rydym yn pryderu efallai na fydd llunwyr polisi a darparwyr yn ystyried effaith y cyfyngiadau hyn, p'un a oes opsiwn llai cyfyngol a'r hyn sydd er budd gorau'r unigolyn. Yn fwy cyffredinol, rydym yn pryderu y gallai darparwyr fod yn gwyro oddi wrth ofynion DoLS yn ystod y pandemig. Mae'r Llys Gwarchod wedi nodi cwmp "trawiadol a chythryblus" mewn ceisiadau DoLS a gostyngiad sylweddol mewn atgyfeiriadau i wasanaethau eiriolaeth,<sup>67</sup> er ei bod yn werth nodi nad yw hyn wedi trosi'n ostyngiad sylweddol mewn ceisiadau am DoLS i Arolygiaeth Gofal Cymru. Heb gefnogaeth i wneud penderfyniadau, efallai na fydd pobl yn gallu gwneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch gofal a thriniaeth, gan gynnwys cynllunio diwedd oes.

## Erthygl 8: hawl i fywyd preifat a theuluol

---

<sup>65</sup> Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (30 Tachwedd 2018), '[Erthygl 5: Hawl i ryddid a diogelwch](#)' [cyrchwyd 9 Hydref 2020].

<sup>66</sup> Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (2007), '[Deddf Galluedd Meddyliol 2005: Cod Ymarfer](#)', t.19.

<sup>67</sup> Barnwriaeth Cymru a Lloegr (4 Mai 2020), '[Gohebiaeth gan Mr Ustus Hayden, Is-lywydd y Llys Gwarchod, dyddiedig 4 Mai 2020](#)'. Mae'r CQC wedi nodi'n glir bod mesurau diogelu yn parhau mewn grym yn ystod y pandemig, a bod rhaid osgoi amddifadu rhyddid oni bai bod hynny'n hollol angenrheidiol ac yn gymesur i osgoi niwed yn yr achos unigol. CQC (26 Mai 2020), '[Gweithio o fewn y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn ystod y pandemig coronafeirws](#)' [cyrchwyd 7 Hydref 2020].

40. Mae erthygl 8 yn amddiffyn yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol, cartref a gohebiaeth.<sup>68</sup> Mae'n cynnwys hawl i gyfanrwydd corfforol a seicolegol<sup>69</sup> ac i greu a chynnal perthnasoedd cymdeithasol.<sup>70</sup> Gall awdurdodau cyhoeddus ymyrryd â'r hawl hon i ddilyn nod cyfreithlon, gan gynnwys amddiffyn iechyd, ond rhaid i unrhyw ymyrraeth fod yn gyfreithlon, yn angenrheidiol ac yn gymesur.<sup>71</sup>
41. Mae cyfyngiadau ar ymweliadau a gofynion i oruchwylio ymweliadau yn debygol o ymyrryd â hawliau Erthygl 8 pobl. Mae'n annhebygol y bydd cyfyngiadau cyffredinol yn cydymffurfio â safonau hawliau dynol. Er y cyflwynwyd y cyfyngiadau hyn i helpu i amddiffyn bywydau ac iechyd preswylwyr cartrefi gofal, dylid pwysu a mesur yr effaith ehangach ar eu hawliau a'u hiechyd yn ofalus.
42. Gallai peidio â gweld teulu a ffrindiau achosi goblygiadau difrifol posibl i iechyd meddwl a chorfforol, yn arbennig dros gyfnod hir.<sup>72</sup> I'r rhai sydd â dementia (sy'n cyfrif am o leiaf 70 y cant o breswylwyr cartrefi gofal yn y DU)<sup>73</sup> gall achosi i sgiliau gwybyddol a sgiliau eraill ddirywio'n gyflym, gan gynnwys sgiliau cyfathrebu a'r gallu i adnabod aelodau'r teulu.<sup>74</sup> Fe glywodd y Cyd-bwyllgor ar Hawliau Dynol dystiolaeth o'r gofid sylweddol yr oedd absenoldeb ymweliadau yn ei achosi i bobl ifanc ag anableddau dysgu ac awtistiaeth.<sup>75</sup> Mae Cymdeithas Geriatreg Prydain wedi rhybuddio am y "risg go iawn" o niwed corfforol oherwydd ynysu.<sup>76</sup> Efallai y bydd preswylwyr cartrefi gofal hefyd yn dibynnu ar aelodau'r teulu i ddarparu

---

<sup>68</sup> [Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol](#), Erthygl 8 (1).

<sup>69</sup> Gweler Llys Hawliau Dynol Ewrop: Osman v UK (Cais rhif 23452/94), para. 128-130; Bevacqua ac S. v Bwlgaria (Cais Rhif 71127/01), para. 65; Sandra Janković v Croatia (Cais Rhif 38478/05), para 45; A v Croatia (Cais Rhif 55164/08), para 60; Söderman v Sweden [GC] (Cais Rhif 5786/08), para 80.

<sup>70</sup> Gweler Llys Hawliau Dynol Ewrop: X. v Gwlad yr Iâ (Cais Rhif 6825/74), tt. 86-87; McFeeley et al. v DU (Cais Rhif 8317/78) para. 82.

<sup>71</sup> [Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol](#), Erthygl 8 (2). Mae Llys Hawliau Dynol Ewrop wedi dyfarnu er mwyn i unrhyw ymyrraeth yn 'angenrheidiol', rhaid iddi gyfateb i angen cymdeithasol dybryd a bod yn gymesur wrth geisio nod cyfreithlon, Gweler The Sunday Times v DU (Cais Rhif 6538/74), para 59.

<sup>72</sup> Age UK (22 Medi 2020), '[Ymweld mewn cartrefi gofal: ble nawr?](#)'.

<sup>73</sup> Cymdeithas Alzheimer's (Medi 2020), '[Wedi'u Taro gwaethaf: dementia yn ystod coronafeirws](#)', t. 13

<sup>74</sup> Gweler [tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan Gymdeithas Alzheimer's \(DEL0115\)](#) i ymchwiliad y Pwyllgor Dethol Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 'Gyflwyno gwasanaethau craidd y GIG a gofal yn ystod y pandemig a thu hwnt'.

<sup>75</sup> Cyd-bwyllgor ar Hawliau Dynol (12 Mehefin 2020), '[Hawliau Dynol ac ymateb y Llywodraeth i COVID-19: Cadw pobl ifanc sy'n awtistig a/neu sydd ag anableddau dysgu yn y ddalfa, pumed adroddiad sesiwn 2019-21](#)'.

<sup>76</sup> Cymdeithas Geriatreg Prydain (30 Mawrth 2020), '[COVID-19: Rheoli'r pandemig COVID-19 mewn cartrefi gofal i bobl hŷn](#)' [cyrchwyd 7 Hydref 2020].

agweddau pwysig ar eu gofal.<sup>77</sup> Er, i rai preswylwyr cartrefi gofal, bod y risg o ddod i gysylltiad â COVID-19 mewn ymweliadau yn gorbwyso'r buddion, mewn llawer o achosion mae rhesymau lles cryf i ganiatáu ymweliadau er mwyn helpu i leihau gofid a sicrhau nad yw anghenion gofal yn cael eu hesgeuluso.<sup>78</sup>

43. Gellir lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ymweliadau yn sylweddol trwy roi mynediad priodol i ymwelwyr cartrefi gofal at PPE a phroffion rheolaidd (a allai ganiatáu am gyswllt corfforol), a hwyluso ymweliadau awyr agored neu lle gellir cadw pellter cymdeithasol lle bo angen. Byddai'r mesurau hyn hefyd yn helpu i osgoi'r angen am ymweliadau dan oruchwyliaeth. Gall ymagwedd gytbwys amddiffyn yr hawl i fywyd wrth gynnal yr hawl i fywyd preifat a theuluol a'r hawl i iechyd, gan sicrhau nad yw ansawdd bywyd preswylwyr cartrefi gofal yn lleihau.

### **Rhwymedigaethau o dan gyfraith hawliau dynol rhyngwladol**

---

44. Mae Llywodraeth y DU wedi llofnodi nifer o gytuniadau hawliau dynol rhyngwladol sy'n rhwymol o dan gyfraith ryngwladol. Nid oes modd gorfodi'r cytuniadau hyn yn uniongyrchol yn llysoedd y DU, ond trwy eu cadarnhau mae Llywodraeth y DU wedi cytuno y bydd eu gofynion yn cael eu hadlewyrchu mewn deddfau, polisi a chanllawiau. Gellir eu defnyddio hefyd i ddehongli'r hawliau a ddiogelir o dan y Ddeddf Hawliau Dynol. Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru barchu, amddiffyn a chyflawni hawliau dynol a geir mewn cyfraith ryngwladol, sydd yn ymarferol yn golygu ymatal rhag ymyrraeth, sicrhau amddiffyniad rhag camdriniaeth a chymryd camau cadarnhaol i hwyluso eu mwynhad.<sup>79</sup>
45. Rydym yn amlygu dwy hawl allweddol o dan y cytuniadau hyn, y tu hwnt i'r rhai a nodwyd eisoes trwy'r HRA, sy'n arbennig o berthnasol i gartrefi gofal yn ystod coronafeirws: yr hawl i iechyd, a hawl pobl anabl i fyw'n annibynnol. Mae'n ofynnol i'r Lywodraeth barchu, amddiffyn a chyflawni hawliau dynol a geir mewn cyfraith ryngwladol, sydd yn ymarferol yn golygu ymatal rhag camdriniaeth a chymryd camau cadarnhaol i hwyluso eu mwynhad.

### **Ymgorffori cytuniadau rhyngwladol**

46. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgorffori rhai o'r hawliau a ddiogelir mewn cytuniadau rhyngwladol mewn deddfwriaeth ddomestig. Er enghraifft, mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i

---

<sup>77</sup> Cymdeithas Alzheimer's (9 Gorffennaf 2020), '[Llythyr agored at y Llywodraeth - caniatáu statws gweithiwr allweddol i ofalwyr teulu](#)'; Age UK (22 Medi 2020), '[Ymweld mewn cartrefi gofal: ble nawr?](#)'.

<sup>78</sup> Cymdeithas Geriatreg Prydain (30 Mawrth 2020), '[COVID-19: Rheoli'r pandemig COVID-19 mewn cartrefi gofal i bobl hŷn](#)' [cyrchwyd 7 Hydref 2020].

<sup>79</sup> [Llywodraeth y DU, \(2006\) 'Deddf Llywodraeth Cymru 2006'](#)

Weinidogion Cymru roi sylw dyledus i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn a'r Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anabledau. Mae meysydd eraill o bolisi Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at sut y bydd rhwymedigaethau cytuniad yn cael eu dwyn ymlaen ar lefel ddatganoledig, er enghraifft mae 'Gweithredu ar Anabled: Yr hawl i fframwaith byw'n annibynnol a chynllun gweithredu' Llywodraeth Cymru yn nodi ei gweledigaeth ar gyfer bwrw ymlaen â'r CRPD yng Nghymru.

## Yr hawl i iechyd

47. O dan Erthygl 12 o'r Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (ICESCR) mae'n ofynnol i'r Llywodraeth gydnabod hawl pawb i'r 'safon gyraeddadwy uchaf o iechyd corfforol a meddyliol', gan gynnwys trwy drin a rheoli clefydau epidemig.<sup>80</sup> Mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (CESCR), sy'n adolygu cydymffurfriad gwladwriaethau ag ICESCR, wedi amlygu'r ffaith bod gan yr hawl i iechyd gysylltiad agos â gwireddu hawliau eraill, gan gynnwys yr hawl i fywyd a'r gwaharddiad ar artaith, triniaeth annynol neu ddiraddiol.<sup>81</sup>
48. Wrth gyflawni'r hawl i iechyd, mae CESCR wedi pwysleisio pwysigrwydd deall rhyddid a hawliau, megis yr hawl i fod yn rhydd rhag artaith a thriniaeth feddygol nad yw'n gydsyniol, a'r hawl i system amddiffyn iechyd sy'n rhoi cyfle cyfartal i fwynhau'r safon iechyd uchaf y gellir ei chyrraedd.<sup>82</sup> Mae CESCR hefyd wedi amlygu'r hawl i ofal iechyd amserol a phriodol<sup>83</sup> a'r angen i sicrhau bod cyfleusterau, nwyddau a gwasanaethau gofal iechyd ar gael ar lefel ddigonol, eu bod o ansawdd da, eu bod yn hygyrch i bawb heb wahaniaethu ac yn sensitif i wahanol ddiwylliannau.<sup>84</sup>
49. Mae Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig wedi nodi'n glir bod rhaid i benderfyniadau anodd ynghylch darparu triniaeth i bobl hŷn gael eu llywio gan 'ymrwymiad i urddas a'r hawl i iechyd', y mae gan bob bywyd werth cyfartal oddi

---

<sup>80</sup> [Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol](#), Erthygl 12.

<sup>81</sup> Pwyllgor ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (2000), [CESCR Sylw Cyffredinol Rhif 14: Yr Hawl i'r Safon Iechyd Cyrhaeddadwy Uchaf \(Erth. 12\)](#), para. 3

<sup>82</sup> Pwyllgor ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (2000), [CESCR Sylw Cyffredinol Rhif 14: Yr Hawl i'r Safon Iechyd Cyrhaeddadwy Uchaf \(Erth. 12\)](#), para. 8. Mae paragraff 19 hefyd yn pwysleisio 'mynediad cyfartal i ofal iechyd a gwasanaethau iechyd'. Mae Erthygl 2 [ICESCR](#) yn nodi bod Gwladwriaethau sy'n Barti 'yn ymrwymo i warantu y bydd yr hawliau a enwir yn y Cyfamod presennol yn cael eu harfer heb wahaniaethu o unrhyw fath'.

<sup>83</sup> Pwyllgor ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (2000), [CESCR Sylw Cyffredinol Rhif 14: Yr Hawl i'r Safon Iechyd Cyrhaeddadwy Uchaf \(Erth. 12\)](#), para. 11.

<sup>84</sup> Ibid., paragraffau. 12 (a), (b), (c) a (d).

tano.<sup>85</sup> Gall polisïau i'r gwrthwyneb, gan gynnwys cyfyngiadau cyffredinol ar ofal critigol a defnyddio hysbysiadau 'peidiwch â dadebru' heb gydsyniad, dorri'r hawl i beidio â gwahaniaethu o dan yr ECHR a ddarllenir ar y cyd â'r hawl i fywyd.<sup>86</sup> Mae Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig hefyd wedi pwysleisio, hyd yn oed pan yw gwasanaethau iechyd nad ydynt yn gysylltiedig â COVID-19 yn cael eu lleihau, mae'r hawl i iechyd yn mynnu bod pobl hŷn yn parhau i dderbyn gofal iechyd a chymdeithasol integredig, gan gynnwys gofal lliniarol, adsefydlu a mathau eraill o ofal.<sup>87</sup>

50. Yn ystod ton gyntaf y pandemig, roedd mynediad at ofal iechyd nad oedd yn uniongyrchol gysylltiedig â choronafeirws wedi'i gyfyngu ar gyfer miliynau o gleifion pan ddargyfeiriwyd staff a chyllid i ddiwallu anghenion y rhai a oedd yn ddifrifol wael gyda COVID-19.<sup>88</sup> Mewn cartrefi gofal, mae'n debygol bod gostyngiad mewn mynediad at ofal iechyd a llai o ddiagnosis o gyflyrau newydd<sup>89</sup> wedi cyfrannu at y nifer uchel o farwolaethau 'gormodol' yn y cyfnod hwn.<sup>90</sup> Mae tynnu gwasanaethau iechyd craidd yn her uniongyrchol i fwynhad hawl preswylwyr i iechyd, a dylid ei osgoi tra bo'r pandemig yn parhau trwy ganiatáu am asesiadau a thriniaeth wyneb yn wyneb lle mae'n bosibl, gan ddefnyddio PPE a mesurau eraill i reoli haint.

51. Mae gostyngiad mewn mynediad at ofal iechyd ar gyfer y boblogaeth ehangach yn peryglu dirywiad mewn safonau iechyd a allai arwain at fwy o bobl hŷn ac anabl yn gweld angen gofal preswyl yn y dyfodol.

### **Yr hawl i fyw'n annibynnoli**

52. Mae'n ofynnol o dan Erthygl 19 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau i Gymru barchu, amddiffyn a chyflawni'r hawl i fyw'n annibynnol fel rhan o'r gymuned. Mae hon yn hawl ganolog sy'n sail i lawer o hawliau eraill. Mae'n golygu bod rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau y gall pobl

---

<sup>85</sup> Y Cenhedloedd Unedig (Mai 2020), '[Briff Polisi: Effaith COVID-19 ar bobl hŷn](#)', t. 3.

<sup>86</sup> [Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol](#), Erthygl 14 ac Erthygl 2.

<sup>87</sup> Y Cenhedloedd Unedig (Mai 2020), '[Briff Polisi: Effaith COVID-19 ar bobl hŷn](#)', t.6.

<sup>88</sup> Gweler e.e. Pigott, P. (6 Hydref 2020) '[Covid yng Nghymru: Mae rhestrau llawdriniaeth arferol wedi cynyddu chwe gwaith](#)', Newyddion BBC.

<sup>89</sup> Ymgysylltu â rhanddeiliaid gan EHRC Cymru.

<sup>90</sup> Yn 2020, hyd at 12 Mehefin, bu 1,210 o farwolaethau 'gormodol' mewn cartrefi gofal yng Nghymru, o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2019. SYG (3 Gorffennaf 2020), '[Yr holl ddata ynghylch Marwolaethau yn ymwneud â COVID-19 yn y sector gofal, Cymru a Lloegr: marwolaethau yn digwydd hyd at 12 Mehefin 2020 ac wedi'u cofrestru hyd at 20 Mehefin 2020 \(dros dro\)](#)', Tabl 1. Bu farw cyfanswm o 4,428 o breswylwyr cartrefi gofal yng Nghymru rhwng 1 Ionawr a 12 Mehefin 2020 (gan gynnwys marwolaethau sy'n gysylltiedig â COVID -19), o'i gymharu â 3,218 o farwolaethau am yr un cyfnod yn 2019.



anabl fwynhau'r un hunanbenderfyniad ac annibyniaeth â phawb arall.<sup>91</sup> Mae'r hawl i fyw'n annibynnol yn cynnwys cael dewis a rheolaeth dros ble rydych yn byw a gyda phwy rydych yn byw.<sup>92</sup> Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cefnogaeth unigol sy'n galluogi annibyniaeth a chynhwysiant, a sicrhau bod gwasanaethau cymunedol sydd ar gael i'r boblogaeth gyffredinol yn hygyrch i bobl anabl.<sup>93</sup>

53. Mae'r hawl i fyw'n annibynnol yn golygu bod pobl anabl yn cael pob modd i'w galluogi i arfer dewis a rheolaeth dros eu bywydau, gan gynnwys gwneud penderfyniadau ynghylch eu hiechyd, lles, cyfathrebu a pherthnasoedd personol.<sup>94</sup> Oherwydd hynny, gall cyfyngiadau ar ymweliadau â chartrefi gofal gan deulu, ffrindiau a gweithwyr gofal iechyd, cyfyngiadau ar ryddid pobl, a diffyg mynediad at eiriolaeth a gwneud penderfyniadau â chymorth fod yn ymyrraeth â mwynhad pobl anabl o'r hawl i fyw'n annibynnol. Gall cyfyngiadau eraill, megis methu â gadael cartrefi gofal neu gyfyngiadau ar weithgareddau cymdeithasu a hamdden hefyd gael effaith ar fyw'n annibynnol.<sup>95</sup>
54. Mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau wedi datgan bod rhaid sicrhau ystod y gefnogaeth yn y gymuned, gan gynnwys gofal cartref a chymorth personol, a rhaid i wasanaethau adsefydlu 'gael eu sicrhau ac nid eu dirwyn i ben gan eu bod yn hanfodol ar gyfer arfer yr hawliau pobl ag anableddau'.<sup>96</sup> Mae'r Cenhedloedd Unedig wedi rhybuddio y gallai effaith economaidd y pandemig arwain at doriadau yn y dyfodol i ofal yn y gymuned sy'n cyfyngu ar yr hawl i fyw'n annibynnol yn y tymor hwy.<sup>97</sup>

## Ymgorffori CRPD

55. Mae 'Gweithredu ar Anabledd: Yr hawl i fframwaith byw'n annibynnol a chynllun gweithredu' Llywodraeth Cymru yn nodi gweledigaeth ar gyfer bwrw ymlaen â gweithredu'r CRPD yng Nghymru, gan ystyried argymhellion Pwyllgor y

---

<sup>91</sup> Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau, [Sylw Cyffredinol Rhif 5: Hawl i fyw'n annibynnol](#) (27 Hydref 2017).

<sup>92</sup> Ibid.

<sup>93</sup> Ibid.

<sup>94</sup> Ibid.

<sup>95</sup> Gweler, er enghraifft, pryderon a grynhowyd gan gynrychiolwyr Cymdeithas Perthnasau a Phreswylwyr mewn [tystiolaeth lafar i'r APPG ar Goronafeirws \(12 Awst 2020\)](#) ('mae llawer o'r galwyr i'n llinell gymorth wedi bod yn dweud wrthym fod y sefyllfa bresennol mewn cartrefi gofal bellach yn debyg iawn i garchar ag ymweliadau mor gyfyngedig, preswylwyr yn methu â gadael tiroedd y cartref a'r rhyngweithio cyfyngedig hwnnw â thrigolion a staff eraill').

<sup>96</sup> Cadeirydd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (Ebrill 2020), ['Datganiad ar y Cyd: Personau ag Anableddau a COVID-19'](#).

<sup>97</sup> Y Cenhedloedd Unedig (Mai 2020), ['Briff Polisi: Ymateb Anabledd-Gynhwysol i COVID-19'](#).

Cenhedloedd Unedig.<sup>98</sup> Mae'r fframwaith yn ymrwmo i ymgysylltu'n ystyrion â phobl anabl a'u cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac yn sail iddo mae'r cysyniad o gyd-gynhyrchu, gan gydnabod 'na ellir gwella gwasanaethau i ddiwallu anghenion pobl anabl yn llawn oni bai eu bod yn cymryd rhan weithredol. wrth ddylunio a darparu'r gwasanaethau hynny.<sup>99</sup> Mae adborth gan ein rhanddeiliaid yn awgrymu na chyflawnwyd yr ymrwymadau hyn ym mhrofiad pobl hŷn ac anabl mewn lleoliadau gofal preswyl yn ystod y pandemig, gan danseilio eu mwynhad o'r hawl i fyw'n annibynnol.

56. Rydym wedi datblygu model cyfreithiol arfaethedig ar gyfer ymgorffori'r hawl i fyw'n annibynnol mewn cyfraith ddomestig yn llawn,<sup>100</sup> a gymeradwywyd gan y Cydbwyllgor ar Hawliau Dynol yn 2019.<sup>101</sup> Rydym yn pryderu y gallai'r pandemig arwain at atchweliad hirdymor mewn safonau ac amddiffyniadau i bobl anabl. Byddai ymgorffori hawl i fyw'n annibynnol yn ein barn ni yn helpu i atal hyn, a byddai'n sicrhau mynediad i wneud iawn mewn achosion lle mae hawliau pobl anabl wedi cael eu cwtogi'n anghyfreithlon.

## **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

---

57. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn darparu fframwaith cyfreithiol i sicrhau bod pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal yn gallu cyrchu gwasanaethau cyngor, gwybodaeth, arweiniad ac eiriolaeth, a'u bod yn gysylltiedig â gwneud penderfyniadau a'u bod â llais a rheolaeth dros eu gofal a thriniaeth. Mae tystiolaeth gan ein rhanddeiliaid yn awgrymu nad dyma oedd y realiti yn ystod y don gyntaf o COVID-19, sydd wedi datgelu a gwaethygu materion hirsefydlog ynghylch gallu pobl i ddeall a gwireddu eu hawliau mewn lleoliadau gofal preswyl.

### **Dyletswydd Llesiant**

58. Mae adran 5 yn gosod dyletswydd ar unrhyw un sy'n arfer dyletswyddau o dan y Ddeddf i hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth. Fe ganfu ein hymgysylltu â rhanddeiliaid y bu dirywiad amlwg yn llesiant ac ansawdd bywyd y

---

<sup>98</sup> Sylwch nad yw hyn yn cyfateb i gorffori llawn.

<sup>99</sup> Llywodraeth Cymru (2019), '[Gweithredu ar Anabledd: yr hawl i fframwaith byw'n annibynnol a chynllun gweithredu](#)'.

<sup>100</sup> Gweler [ein tystiolaeth a gyflwynom, ynghlŷn â gofal cymdeithasol oedolion a'r hawl i fyw'n annibynnol, i ymchwiliad y Cyd-bwyllgor ar Hawliau Dynol ar ymateb y Llywodraeth i COVID-19: goblygiadau hawliau dynol](#)

<sup>101</sup> Cyd-bwyllgor ar Hawliau Dynol (2019), '[Cadw pobl ifanc ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth, yn y ddalfa Ail adroddiad sesiwn 2019](#)'.

rhai sy'n byw mewn cartrefi gofal yn ystod y pandemig. Er enghraifft, nododd Alzheimer's Cymru fod rhai preswylwyr â dementia wedi profi dirywiad gwybyddol clir yn ystod yr amser pan gafodd ymweliadau eu hatal.<sup>102</sup> Cefnogir hyn gan y profiadau a ddaliwyd yn adroddiad Llesiau Cartrefi Gofal Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.<sup>103</sup>

59. Yn ogystal â llesiant meddyliol, fe ganfu ein hymgysylltu â rhanddeiliaid fod atal apwyntiadau gofal iechyd arferol yn ystod y pandemig wedi effeithio ar iechyd corfforol pobl hŷn. Mae hyn wedi arwain at ôl-groniad o apwyntiadau wedi'u canslo a chyflyrau iechyd heb eu diagnosio. Os na eir i'r afael â hyn, gallem wynebu argyfwng ehangach ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol nad yw'r sector yn barod ar ei gyfer.

### **Llais ac ymreolaeth**

60. Mae adran 6 yn gosod dyletswydd drosfwaol ar bob dyletswydd ymarfer i roi sylw i: (a) farn, dymuniadau a theimladau'r unigolyn; (b) pwysigrwydd hyrwyddo a pharchu eu hurddas; (c) eu nodweddion, diwylliant a chredoau (gan gynnwys, er enghraifft, iaith); ac (ch) pwysigrwydd darparu cefnogaeth briodol i'w galluogi i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.
61. Codwyd pryderon gan rhanddeiliaid nad oedd barn, dymuniadau a theimladau pobl hŷn (a ddisgrifir yn adran 6 y Ddyletswydd) yn cael eu hystyried yn ystod ton gyntaf y pandemig, hyd yn oed ar feysydd sylfaenol megis pa gartref y cawsant eu rhyddhau iddo, a roeddent yn dymuno cael hysbysiad Peidiwch â Dadebru yn ei le ai peidio, ac a oeddent yn gallu derbyn ymwelwyr. Er bod y pandemig yn gosod heriau digynsail ynghylch iechyd cyhoeddus, dylai fod gan bobl ddewis a rheolaeth o hyd fel y darperir ar eu cyfer yn y Ddeddf, a dylai unrhyw gyfyngiadau fod yn gwbl angenrheidiol a chymesur.

### **Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn**

62. Mae adran 7 yn gosod dyletswydd i roi sylw dyledus i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn a fabwysiadwyd gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ar 16 Rhagfyr 1991.<sup>104</sup> Mae 18 egwyddor, wedi'u grwpio i bum thema, sef: annibyniaeth, cyfranogiad, hunangyflawniad, gofal ac urddas.<sup>105</sup> Er eu bod yn wahanol i'r cytuniadau hawliau dynol rhyngwladol, ac heb fod yn

---

<sup>102</sup> Ymgysylltu â Rhanddeiliaid gan EHRC Cymru

<sup>103</sup> Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Mehefin 2020), '[Llesiau Cartrefi Gofal: Ciplwg ar fywyd mewn cartrefi gofal yng Nghymru yn ystod Covid-19](#)'.

<sup>104</sup> [Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn \(Penderfyniad 46/91\)](#).

<sup>105</sup> Llywodraeth Cymru (2015), '[Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014: Cod Ymarfer Rhan 2 \(Swyddogaethau Cyffredinol\)](#)'.

rhwymol ar wladwriaethau, mae'r Egwyddorion yn darparu canllaw pwysig ar gyfeiriad arfer gorau rhyngwladol mewn perthynas â hawliau pobl hŷn.

63. Mae'n amlwg o'n hymgysylltiad â rhanddeiliaid bod coronafeirws wedi datgelu materion ynghylch rhagfarn ar sail oedran a gwahaniaethu ar sail oedran, a bod y materion hyn wedi cael effaith ar yr ymateb i'r pandemig. Fe ganfuwyd bod pobl hŷn mewn cartrefi gofal wedi cael eu diystyru a'u hanwybyddu, a fyddai'n mynd yn gwbl groes i Adran 7.

### **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau**

64. Mae Rhan 2 o'r Cod Ymarfer (Swyddogaethau Cyffredinol) yn nodi, wrth arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â phobl anabl sydd angen gofal a chymorth, bod rhaid i awdurdodau lleol roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.<sup>106</sup>

### **Gwybodaeth a chanllawiau**

65. Mae adran 17 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chymorth sy'n ymwneud â gwasanaethau gofal a chymorth ar gael ac yn hygyrch. Dylai hyn gynnwys o leiaf: sut mae'r system gofal a chymorth yn gweithredu, y mathau o ofal a chymorth sydd ar gael, sut i gael mynediad at wasanaethau gofal a chymorth, a sut i godi pryderon ynghylch llesiant rhywun arall yr ymddengys fod ganddo anghenion ynghylch gofal a chymorth.
66. Nid yw oddeutu traean o'r holl bobl hŷn yn gwybod eu hawliau ac mae llawer o'r rhai sy'n eu deal yn amharod i 'wneud ffwdan.'<sup>107</sup> Ymhellach, gwelsom fod cyfathrebu â staff cartrefi gofal yn ystod y pandemig wedi bod yn anghyson ac yn aneglur. Fe wnaeth Fforwm Gofal Cymru ein hysbysu bod problemau sylweddol yn ymwneud â rheoli fersiwn ar gyfercanllawiau, a oedd wedi arwain at ddryswch. Roedd adroddiad y Comisiynydd Pobl Hŷn yn cefnogi'r farn hon ac wedi canfod bod rheolwyr a staff cartrefi gofal yn wynebu cryn anawsterau wrth: 'gyrchu gwybodaeth a chanllawiau hanfodol i'w cefnogi i leihau lledaeniad y feirws ac amddiffyn preswylwyr a staff. Amlygwyd materion penodol ynghylch faint o wybodaeth oedd yn newid yn gyflym yr oedd cartrefi gofal yn ei derbyn, yn aml gan sawl corff, a oedd yn aml yn ddryslud neu'n anghyson.'<sup>108</sup> Fel y dywedodd un

---

<sup>106</sup> Llywodraeth Cymru (30 Ebrill 2020), ''.

<sup>107</sup> Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Ymgysylltu â Rhanddeiliaid, Senedd Pobl Hŷn Cymru

<sup>108</sup> Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (Mehefin 2020), '[Leisiau Cartrefi Gofal: Ciplwg ar fywyd mewn cartrefi gofal yng Nghymru yn ystod Covid-19](#)'.

rheolwr cartref gofal, 'Fe gawsom ein boddi â gwaith papur gan sawl asiantaeth a oedd yn cael ei ddyblygu ac weithiau'n groes i'w gilydd.'<sup>109</sup>

## Eiriolaeth

67. Mae adran 181 yn nodi y gallai fod yn ofynnol i awdurdodau lleol drefnu eiriolaeth i bobl sydd angen gofal a chymorth.
68. Mae rhanddeiliaid wedi ein hysbysu bod diffyg eiriolaeth yn fater hirsefydlog o fewn y sector gofal cymdeithasol, a waethygyd o dan Covid-19. Mae hyn wedi arwain at wneud penderfyniadau heb ddealltwriaeth, cyfranogiad na chydysyniad pobl hŷn, gan fynd yn gwbl groes i ddarpariaethau eiriolaeth ac egwyddorion llais, rheolaeth a chyd-gynhyrchu a nodir yn y Ddeddf.<sup>110</sup> Yn hytrach nodweddyd yr enghreifftiau a ddarparwyd gan ein rhanddeiliaid gan ddiffyg cyfranogiad ac ymreolaeth i bobl hŷn mewn penderfyniadau a oedd yn effeithio ar eu bywydau a'r gwasanaethau yr oeddent y neu cael, diffyg gweithredu ataliol trwy ddarpariaeth annigonol o brofion a PPE, a methiant i ganolbwyntio ar ansawdd bywyd a llesiant.

## Deddf Coronafeirws 2020 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

---

69. Cododd rhanddeiliaid bryderon ynghylch y darpariaethau yn Neddf Coronafeirws 2020 sy'n galluogi atal rhannau o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae hyn yn golygu nad oes rhaid i awdurdodau lleol gynnal asesiadau o anghenion mwyach, diwallu anghenion cymwys oedolion ynghylch gofal a chymorth, cynnal asesiadau ariannol, neu adolygu cynlluniau gofal a chymorth. Yn lle, gall awdurdodau lleol godi tâl yn ôl-weithredol am unrhyw ofal mewn amgylchiadau penodol a dim ond yn yr achosion mwyaf difrifol y mae dyletswydd arnynt i ddiwallu anghenion am ofal a chymorth.<sup>111</sup> Er bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau nad oes unrhyw awdurdodau lleol wedi defnyddio'r pwerau hyn mewn gwirionedd,<sup>112</sup> mae pryderon yn aros ei fod yn bresennol ar y llyfr statud ac y gallai beri risgiau i hawliau pobl hŷn ac anabl.
70. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng ngoleuni tystiolaeth ddiweddar gan Sefydliad Hawliau Dynol Prydain a ganfu na ddarparwyd hyfforddiant cyfreithiol na

---

<sup>109</sup> Ibid.

<sup>110</sup> Gofal Cymdeithasol Cymru (29 Mawrth 2017), '[Trosolwg, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles \(Cymru\) 2014](#)' [cyrchwyd 8 Hydref 2020]. Gweler hefyd Ymgysylltu â Rhanddeiliaid EHRC Cymru

<sup>111</sup> Ymchwil y Senedd (12 Mai 2020), '[Coronafeirws: rheoliadau brys ar ofal cymdeithasol ac iechyd meddwl \(wedi'u diweddarau ar 12 Mai\)](#)'.

<sup>112</sup> Llywodraeth Cymru (23 Medi 2020), '[Llythyr at Gadeirydd pwyllgor ELGC](#)'.

gwybodaeth glir i 77 y cant o staff sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol am ddefnyddio Pwerau Brys o dan y Ddeddf Coronafeirws. Yn yr un modd, ni ddarparwyd hyfforddiant cyfreithiol na gwybodaeth glir i 73 y cant o'r rhai a holwyd am Gyfraith Hawliau Dynol,<sup>113</sup> rydym yn gobeithio y bydd y briff hwn yn mynd rhywfaint o'r ffordd i fynd i'r afael â'r bwch gwybodaeth hwn.

## **Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016**

---

71. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn creu system reoleiddio sy'n canolbwyntio ar anghenion y rhai hynny sy'n derbyn gofal a chymorth. O dan y Ddeddf, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru amddiffyn, hyrwyddo a chynnal diogelwch a llesiant pobl sy'n defnyddio gwasanaethau rheoledig (gan gynnwys gwasanaethau eirioli) ac i hyrwyddo a chynnal safonau uchel wrth ddarparu gwasanaethau. Nod y ddeddfwriaeth yw darparu ymateb cadarn i'r gwersi a ddysgwyd o fethiannau blaenorol yn y system.<sup>114</sup>

## **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011**

---

72. Mae'r mesur hwn yn ei gwneud yn ofynnol bod gwasanaethau mewn gofal cymdeithasol o'r un safon ac ar gael mor hawdd a phrydlon yn Gymraeg ag yn Saesneg, a dylent fod mor eang a thrylwyr. Ni ddylai sefydliadau rhagdybio mai Saesneg yw'r iaith ddiofyn wrth ddarparu eu gwasanaethau ac ni ddylai fod yn ofynnol i siaradwyr Cymraeg ofyn am wasanaeth yn Gymraeg.<sup>115</sup>

73. Mae'r darpariaethau hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod pobl hŷn sydd efallai dim ond yn gallu cyfleu eu hanghenion gofal yn effeithiol yn Gymraeg yn derbyn yr un lefel o ofal a chyfathrebu â siaradwyr y Saesneg. I lawer o siaradwyr Cymraeg, mae iaith yn elfen annatod o'u gofal,<sup>116</sup> yn arbennig i'r rheini ag anghenion ychwanegol megis pobl â dementia sy'n aml yn colli eu hail iaith neu'r rhai sydd wedi dioddef strôc.<sup>117</sup>

---

<sup>113</sup> Sefydliad Hawliau Dynol Prydain, (Gorffennaf 2020) [Y Cyd-bwyllgor ar yr Ymchwiliad Hawliau Dynol i oblygiadau hawliau dynol ymateb Llywodraeth y DU i Covid-19: Tystiolaeth gan staff sy'n gweithio ym maes iechyd, gofal a gwaith cymdeithasol.](#)

<sup>114</sup> Gofal Cymdeithasol Cymru (Ebrill 2019), '[Trosolwg: Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol \(Cymru\) 2016](#)' [cyrchwyd 7 Hydref 2020].

<sup>115</sup> Gofal Cymdeithasol Cymru (Medi 2020), '[Defnyddio Cymraeg yn y gwaith](#)' [cyrchwyd 7 Hydref 2020].

<sup>116</sup> Llywodraeth Cymru (Ebrill 2019) '[Mwy na Geiriau yn Unig: Fframwaith Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol: Adroddiad Cynnydd - Blwyddyn 2](#)'.

<sup>117</sup> Y Sgwrs, 2019 [Dwyieithrwydd a dementia: sut mae rhai cleifion yn colli eu hail iaith ac yn ailddarganfod eu hiaith gyntaf](#)

## Sicrhau cydymffurfiad â safonau cydraddoldeb a hawliau dynol

---

74. Rydym yn cydnabod bod y pandemig coronafeirws yn cyflwyno heriau digynsail i'r Llywodraeth, a bod newidiadau a chanllawiau polisi pwysig wedi'u gweithredu wrth i'r pandemig fynd rhagddo, gan gynnwys Cynllun Gweithredu Cartrefi Gofal Llywodraeth Cymru.<sup>118</sup> Fodd bynnag, mae'r materion sydd wedi codi mewn cartrefi gofal yn codi pryderon gwirioneddol bod safonau cydraddoldeb a hawliau dynol wedi'u torri.<sup>119</sup> Mae'n hanfodol bod problemau parhaus yn cael sylw, bod arfer da yn cael ei ymgorffori a bod mesurau ar waith i atal problemau rhag ailymddangos. Mae cynnwys ystyriaethau cydraddoldeb a hawliau dynol wrth wneud penderfyniadau ar lefel genedlaethol a lleol yn rhan allweddol o hyn.

### Ein hargymhellion

#### Llywodraeth Cymru

- (1) Dylai Llywodraeth Cymru barhau i gymryd camau brys i sicrhau bod penderfyniadau ynghylch iechyd a gofal pobl hŷn mewn lleoliadau preswyl - mewn achosion unigol ac ar lefel polisi cenedlaethol - yn cael eu gwneud wrth gydweithredu ac ymgynghori â phobl hŷn a'u sefydliadau cynrychioliadol. Rhaid i hyn gael ei ategu gan ganllawiau clir, hygyrch a chyson sy'n cydymffurfio'n llawn â safonau hawliau dynol, gan gynnwys egwyddorion ymreolaeth unigol a pheidio â gwahaniaethu.
- (2) Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod dewis, rheolaeth ac ymreolaeth preswylwyr cartrefi gofal yn cael eu cadw cyn belled ag y bo modd yn ystod y pandemig, a bod unrhyw gyfyngiadau yn angenrheidiol, cymesur a chyfyngedig o ran amser.
- (3) Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan breswylwyr cartrefi gofal fynediad llawn a chyfartal at ofal iechyd angenrheidiol, gan gynnwys gwasanaethau meddygon teulu a thriniaeth ysbyty, a bod ymgynghoriadau'n cael eu cynnal wyneb yn wyneb lle bynnag y bo modd.

---

<sup>118</sup> Mae hyn yn cynnwys y [Cynllun Gweithredu Cartrefi Gofal, Ymweliadau â Chartrefi Gofal: canllawiau i ddarparwyr, Canllawiau i ddarparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion yn y pandemig covid-19](#) ac ['Iechyd Cyhoeddus Cymru' ar gyfer gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol](#).

<sup>119</sup>Dangosodd arolwg diweddar o staff iechyd, gofal a gwaith cymdeithasol gan Sefydliad Hawliau Dynol Prydain fod hanner wedi bod yn dyst i droseddau hawliau dynol a oedd yn golygu bod rhywun yn cael ei drin yn waeth nag eraill oherwydd eu hunaniaeth neu nodwedd warchoddedig benodol. Sefydliad Hawliau Dynol Prydain (Awst 2020), ['Y Cyd-bwyllgor Ymchwiliad Hawliau Dynol i oblygiadau hawliau dynol ymateb Llywodraeth y DU i Covid-19: Tystiolaeth gan staff sy'n gweithio ym maes iechyd, gofal a gwaith cymdeithasol'](#), t. 17.

- (4) Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod hysbysïadau 'peidiwch â dadebru' a weithredwyd ar gam i gynlluniau gofal pobl yn cael eu dileu.
- (5) Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda darparwyr i sicrhau bod pobl hŷn sydd heb alluedd yn gallu cyrchu eiriolaeth annibynnol.
- (6) Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod digon o allu profi dibynadwy, amserol i sicrhau nad yw pobl mewn cartrefi gofal yn dod i gysylltiad diangen â choronafeirws ac nad oes rhaid iddynt ynysu yn ddiangen, ac y gallant gael mynediad diogel i ymweliadau gan deulu, ffrindiau a gwasanaethau gofal iechyd.
- (7) Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod mesurau yn aros yn eu lle i warantu digon o gyfarpar diogelu personol ar gyfer cartrefi gofal drwy gydol y pandemig, dylid blaenoriaethu cyfarpar â phaneli clir lle bo angen mwy'n lliniaru unrhyw anawsterau cyfathrebu i bobl anabl.
- (8) Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i hwyluso ymweliadau diogel â chartrefi gofal trwy ymestyn profion cartrefi gofal i ymwelwyr hanfodol, gan ganiatáu iddynt gael yr un mynediad at PPE a phroffion rheolaidd a ragwelir ar gyfer staff cartrefi gofal yng nghynllun gaeaf Llywodraeth Cymru.
- (9) Dylai Llywodraeth Cymru ddiwygio canllawiau ar ymweliadau cartrefi gofal i wahardd cyfyngiadau cyffredinol, gan gynnwys mewn ardaloedd lle mae cyfyngiadau lleol ar waith, a sicrhau bod pob penderfyniad yn seiliedig ar asesiadau risg unigol fel nad yw ymweliadau yn gyfyngedig dim ond lle bo hynny'n hollol angenrheidiol. Dylai'r canllawiau gael ei hyrwyddo'n gyhoeddus i gynyddu dealltwriaeth ymhlith darparwyr, preswylwyr ac ymwelwyr ynghylch pryd y caniateir ymweliadau, a dylid eu hadolygu a'u diweddarau i ganiatáu llacio ymhellach i bolisïau ymweld lle mae'n ddiogel gwneud hynny.
- (10) Dylai Llywodraeth Cymru asesu a yw ataliaeth wedi cynyddu yn ystod y pandemig a gweithio gyda darparwyr, y GIG ac arolygiaethau i nodi pa gymorth ychwanegol y dylid ei ddarparu i osgoi ei ddefnydd a sicrhau tryloywder a monitro a goruchwyllo effeithiol. Dylai canllawiau ar osgoi'r defnydd o ataliaeth adeiladu ar adnoddau ac arfer da presennol ac adlewyrchu'r egwyddorion a nodir yn fframwaith hawliau dynol y Comisiwn ar gyfer ataliaeth, y mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cyfeirio atynt yn ei chanllawiau. Dylid rhoi ystyriaeth arbennig i grwpiau sydd â namau neu nodweddion sy'n cynyddu'r risg o niwed.
- (11) Yn unol â'r UNCRPD a'r ymrwymïadau a amlinellir yn: Gweithredu ar Anabledd: Y fframwaith hawl i fyw'n annibynnol a'r cynllun gweithredu, rhaid i Lywodraeth Cymru:



- a) ddarparu cyllid digonol i bob awdurdod lleol i sicrhau bod hawl pobl anabl i fyw'n annibynnol yn cael ei hamddiffyn yn ystod ac yn dilyn y pandemig. Dylid darparu cyllid trwy fecanweithiau priodol, megis clustnodi, i sicrhau bod yr arian yn cael ei ddefnyddio at y diben hwnnw.
  - b) sicrhau bod yr ymrwymadau a amlinellir yn y Fframwaith yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau polisi sy'n ymwneud â phobl anabl mewn lleoliad gofal preswyl, gan gynnwys yr ymrwymadau i ymgysylltu, cynnwys a chyd-gynhyrchu ystyrllon, ac ymgorffori'r model cymdeithasol o anabled.
  - c) ymgorffori'r hawl i fyw'n annibynnol mewn cyfraith ddomestig i amddiffyn hawliau dynol pobl anabl a hŷn yn ystod ac yn dilyn y pandemig.
- (12) Dylid cynyddu goruchwyliaeth ar y newidiadau i'r ddarpariaeth gofal cymdeithasol ar draws ardaloedd lleol er mwyn sicrhau bod cynllunio adferiad a phenderfyniadau polisi cenedlaethol yn cael eu llywio gan ddata cywir a diweddar. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried pob dull posibl i sicrhau bod awdurdodau lleol a darparwyr gofal yn gallu diwallu anghenion gofal a chymorth cynyddol yn ystod y pandemig a sy'n deillio ohono.
- (13) Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Senedd y DU ddiddymu'r pŵer o dan Ddeddf Coronafeirws 2020 i atal y gofynion deddfwriaethol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru). Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r fframwaith cudd-wybodaeth a chyfreithiol a ddarperir yn y briff hwn i sicrhau bod pobl hŷn ac anabl mewn lleoliadau gofal preswyl yn cael y safonau gofal uchaf, fel y bwriadwyd o dan y Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru).

#### Llywodraeth Cymru a'r holl gyrff cyhoeddus perthnasol

- (14) Yn unol â'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol yng Nghymru, dylai Llywodraeth Cymru a'r holl gyrff cyhoeddus perthnasol yng Nghymru:
- a) sicrhau bod ymgysylltu â phobl hŷn ac anabl yn cael ei wneud, ei ystyried a'i gofnodi wrth ddatblygu ymateb Covid-19 mewn cartrefi gofal;
  - b) cyhoeddi asesiadau o effaith ar gydraddoldeb ar y pwynt cwblhau, gyda ffynonellau data clir (yma mae dulliau casglu data arferol yn cael eu tarfu neu maent yn annigonol, dylid defnyddio ffynonellau newydd a dulliau amgen er mwyn cael mewnwelediad i effeithiau posibl a gwirioneddol ar gyfer gwahanol nodweddion gwarchoddedig); amserlenni ar gyfer camau a gynlluniwyd a sut y bydd y camau hyn yn cael eu monitro a'u gwerthuso;

- c) sicrhau bod asesiadau o effaith ar gydraddoldeb ac unrhyw gyfathrebu cysylltiedig yn hygyrch, clir a phriodol;
- d) sicrhau bod canllawiau ar gyfer cartrefi gofal yn hawdd eu cyrraedd a bod y fersiwn ddiweddaraf yn hawdd ei hadnabod, gyda rhesymeg a sylfaen dystiolaeth glir ar gyfer penderfyniadau.

Llywodraeth Cymru, Comisiynwyr, Cynllunwyr Gwasanaeth a Darparwyr Gofal

- (15) O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, dylai Llywodraeth Cymru, comisiynwyr a chynllunwyr gwasanaeth a darparwyr gofal:
- a) ystyried y meysydd llesiant ehangach a gwmpesir o dan Adran 5 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) mewn penderfyniadau ynghylch yr ymateb i'r pandemig fel bod ansawdd bywyd yn cael ei ddeall a'i ystyried yn well mewn penderfyniadau polisi yn y dyfodol.
  - b) cymryd camau i gynnwys pobl hŷn yn y broses benderfynu a chipio eu straeon a'u profiad er mwyn cyflawni rhwymedigaethau o dan Adran 6 ac o dan y ddyletswydd i roi sylw dyledus i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn.<sup>120</sup>
  - c) gweithredu i wella dealltwriaeth pobl hŷn o'u hawliau mewn lleoliadau gofal preswyl, fel y darperir o dan Adran 17. Dylai hyn ystyried y rhai sydd wedi'u gwahardd yn ddigidol neu sydd ag anghenion mynediad ychwanegol i sicrhau bod ffynonellau gwybodaeth a chymorth ar gael i'r holl bobl hŷn.
  - d) sicrhau bod gwasanaethau eirioli o dan adran 181 ar gael, yn cael adnoddau digonol ac yn cael cyhoeddusrwydd o fewn lleoliadau gofal preswyl yr holl bobl hŷn. Mae hyn yn cynnwys ailafael mewn ymweliadau Eiriolwyr Annibynnol i sicrhau bod pobl hŷn yn cael eu cefnogi i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.
- (16) Dylai Llywodraeth Cymru, comisiynwyr a chynllunwyr gwasanaeth a darparwyr gofal sy'n cyfathrebu penderfyniadau polisi Covid-19 sicrhau bod cynnwys yn hygyrch yn Gymraeg a Saesneg. Dylai gwasanaethau Cymraeg gael eu prif ffrydio fel nad ydynt yn ychwanegiad 'dewisol'.

---

<sup>120</sup> [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles \(Cymru\) 2014](#), adran 6.

## Arolygiaeth Gofal Cymru

- (17) Dylai Arolygiaeth Gofal Cymru sicrhau bod cynlluniau ar waith I gael goruchwyliaeth barhaus effeithiol ar gyfer cartrefi gofal drwy gydol y pandemig, ehangu arolygiadau cyn belled ag y bo modd gan roi blaenoriaeth i'r gwasanaethau hynny lle mae'r safonau fwyaf mewn perygl (fel y'u hysbyswyd gan arolygiadau blaenorol a chasglu gwybodaeth yn lleol ), ac adfer arolygiadau llawn pryd bynnag y mae'n ddiogel gwneud hynny. Dylai CIW ystyried ymhellach gymryd camau ar unwaith y tu hwnt i'r llwybrau presennol i sicrhau bod preswylwyr, perthnasau a staff yn gallu riportio pryderon tra bo ymweliadau'n gyfyngedig.
- (18) Dylai Arolygiaeth Gofal Cymru ddefnyddio'r pwerau a ddarperir o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn llawn i sicrhau bod llais a llesiant pobl hŷn wrth wraidd rheoleiddio gwasanaethau gofal a chymorth preswyl yn ystod y pandemig. Er enghraifft, trwy siarad a gwranddo'n uniongyrchol ar bobl hŷn ac anabl yn ystod gweithdrefnau cwynion ac arolygu a gweithredu ar bryderon trwy fecanweithiau ffurfiol ac anffurfiol.

## Gwybodaeth bellach

---

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:

**Uwch Gydymaith**

Claire Cunliffe

[wales@equalityhumanrights.com](mailto:wales@equalityhumanrights.com)

Elin Jones AS

Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

22 Hydref 2020

Annwyl Elin

## **Craffu ar reoliadau Covid-19**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Hydref 2020, a drafodwyd gennym yn ein cyfarfodydd ar 12 Hydref a 19 Hydref 2020.

Roedd eich llythyr yn ceisio canfod a fyddai'n briodol bod Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at Reoliadau newydd lle'r oedd yr egwyddor sylfaenol eisoes wedi bod yn destun craffu, er mwyn galluogi'r Pwyllgor Busnes i wneud penderfyniad ynghylch lefel y gwaith craffu pellach a allai fod yn ofynnol cyn y ddadl. O ganlyniad, gwnaethoch ofyn am ein barn ynghylch a oedd posibilrwydd o alluogi rhai Rheoliadau sy'n gysylltiedig â Covid-19 i gael eu blaenoriaethu i'w trafod mewn amgylchiadau o'r fath.

Nid ydym yn credu bod yr opsiwn a awgrymwyd gan y Pwyllgor Busnes yn briodol am sawl rheswm. Yn ein barn ni, ni ddylai cymeradwyaeth ar gyfer unrhyw fath o ddeddfwriaeth fod ar sail 'mewn egwyddor'. Felly nid ydym yn gweld y bydd gennym rôl wrth gymeradwyo (neu wrthod) unrhyw asesiad gan Lywodraeth Cymru bod cyfres benodol o reoliadau, mewn egwyddor, yr un fath â chyfres flaenorol. At hynny, byddai gwerth asesiad o'r fath yn amheus yn ein barn ni, o gofio er y gallai cyfres newydd o reoliadau ddilyn amcan polisi tebyg, y gallent fod yn destun pwyntiau i adrodd yn eu cylch o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 o hyd.

Credwn fod ein gwaith craffu ar yr holl reoliadau Covid-19 wedi bod yn effeithlon ac amserol. Rydym wedi adrodd ar y mwyafrif o reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gwneud cadarnhaol cyn pen 14 diwrnod ar ôl gosod yr offeryn. Yn y mwyafrif o achosion, mae hyn wedi galluogi'r Senedd i bleidleisio ar a ddylai'r rheoliadau aros mewn grym ymhell cyn yr 28 diwrnod a ganiateir yn ôl *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984* a'r 40 diwrnod a ganiateir yn ôl *Deddf y Coronafeirws 2020* (y cydsyniodd y Senedd iddi ym mis Mawrth eleni). Byddem hefyd yn dymuno tynnu sylw at y ffaith bod mwyafrif y rheoliadau gwneud cadarnhaol wedi'u gosod ar ddydd

Gwener; mae hyn, ynghyd â'n slot cyfarfod ar fore Llun yn golygu y bu, yn anochel, bwlch o wythnos rhwng y gosod a chraffu ar y rheoliadau gan y Pwyllgor, waeth beth fu'r gwaith a oedd yn angenrheidiol i baratoi adroddiadau i'w hystyried gan y Pwyllgor. Rydym hefyd yn tynnu sylw at sylwadau Vaughan Gething AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn y Cyfarfod Llawn ar [6 Hydref 2020](#), yr ydym yn eu croesawu:

“Rwyf i hefyd yn croesawu'r ffaith bod y pwyllgor, o bryd i'w gilydd, wedi ein helpu ni o ran cysondeb mewn darpariaethau deddfwriaethol. Mae hynny'n rhan o bwynt y craffu. Rydym ni'n gwneud y rheoliadau hyn mewn modd cyflym oherwydd y darlun sy'n newid yn gyflym o ran y coronafeirws, ac rwy'n credu bod gwerth i'r pwyllgor ymgymryd â'i swyddogaeth graffu cyn i'r ddeddfwrfa wedyn allu arfer ei swyddogaeth wrth benderfynu pa un a all y rheoliadau hyn barhau ai peidio.”

Rydym, serch hynny, wedi ystyried amrywiaeth o opsiynau i hwyluso proses graffu gyflymach fyth. Gwnaethom drafod a fyddai cyfarfod yn amlach nag unwaith yr wythnos yn hwyluso'r gwaith craffu ar reoliadau a osodir gan Lywodraeth Cymru ar wahanol adegau yn ystod yr wythnos waith flaenorol. O ystyried arfer Llywodraeth Cymru o osod mwyafrif y rheoliadau gwneud cadarnhaol ar ddydd Gwener, gwnaethom hefyd ystyried a fyddai'n ymarferol symud slot cyfarfod rheolaidd ein Pwyllgor i fore Mercher, er mwyn ystyried rheoliadau a wnaed y dydd Gwener blaenorol ac i osod adroddiad mewn pryd ar gyfer dadl y prynhawn hwnnw. Gwnaethom hefyd drafod a allem roi ymrwymiad ffurfiol i adrodd ar reoliadau gwneud cadarnhaol o fewn terfyn amser o 14 diwrnod.

Daethom i'r casgliad, fodd bynnag, bod dulliau o'r fath yn debygol iawn o arwain at broblemau sylweddol o ran amserlennu ar gyfer Llywodraeth Cymru ac Aelodau o'r Senedd. At hynny, o ystyried cymhlethdod y ddeddfwriaeth hon, mae unrhyw ffurfioli o ran ein trefniadau presennol ar gyfer craffu ar ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â Covid-19 angen ei ystyried ochr yn ochr â nifer cynyddol o ddeddfwriaeth sy'n ymdrin ag ymadawiad y DU â'r UE, yn anad dim oherwydd y gallai ffurfioli o'r fath ei gwneud yn ofynnol i gael adnoddau ychwanegol neu batrymau gwaith gwahanol. Mae'r pwynt olaf hwn yn arbennig o berthnasol o ystyried bod ein cylch gwaith yn golygu bod ein rhaglen waith wedi'i chyfyngu'n fawr ar hyn o bryd gan y gwaith craffu angenrheidiol a phwysig ar is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud ag ymadael â'r UE a memoranda cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer Biliau sy'n ymwneud ag ymadawiad y DU â'r UE, gan gynnwys Bil Marchnad Fewnol y DU sy'n arwyddocaol o ran y cyfansoddiad.

Rydym yn cydnabod bod materion sy'n ymwneud â'r pandemig wedi'u blaenoriaethu yn amser y llywodraeth yn ystod sesiynau'r Cyfarfod Llawn. Gwnaethom hefyd ystyried a allai Llywodraeth Cymru ystyried defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft os yn bosibl o gwbl wrth lunio deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â Covid-19 o dan adran 45C o Ddeddf 1984. Er ein bod yn gwerthfawrogi efallai na fydd hyn yn ymarferol, byddem yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried a oes cyfleoedd o gwbl i'w defnyddio.

Byddwn yn parhau i wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod gwaith craffu ar reoliadau sy'n gysylltiedig â Covid-19 yn cael ei gynnal mewn modd amserol. Fodd bynnag, nid ydym yn credu y dylid peryglu ein swyddogaeth graffu o dan unrhyw amgylchiadau.

Anfonaf gopi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion pob pwyllgor.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Mick Antoniw". The signature is written in a cursive style with a horizontal line underneath the name.

**Mick Antoniw AS**  
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg  
We welcome correspondence in Welsh or English

## **The Domestic Abuse Bill 2019-21: Key priorities for survivors in Wales**

The Domestic Abuse Bill 2019-21 (“the Bill”) was introduced in the House of Commons on 3 March 2020.<sup>1</sup>

We have warmly welcomed the Bill’s recognition that children are victims of domestic abuse in their own right, this means children and young people must now be recognised as deserving adequately funded specialist support. We also greatly welcome the abolishment of the ‘rough sex defence’<sup>2</sup>. There however remains several amendments and priorities for the Bill we support which we believe are vital for its success in supporting *all* survivors and aligning with existing Welsh legislation.

### **Welsh Women’s Aid’s Key priorities for the Bill:**

- Equal protection and support for migrant women and the abolishment of no recourse to public funds (NRPF).
- Family Justice and recognition of the serious impacts of domestic abuse to children.
- Alignment with existing Welsh legislation and inclusion of representation for Welsh survivors

### **Equal protection and support for migrant women and NRPF**

In [our original briefing](#) to the public bill committee we highlighted the impact no recourse to public funds had on survivors.

*All agencies see is an immigration status they do not see us as human beings. We need help. (Survivor)*

*They told me to go back home to Africa as I would be safe there because he now has his stay [leave to remain]. I called the police 100s of times about him and he nearly killed me. The police know all about it. But they let him stay anyway. (Survivor)*

*He told me no one will believe me because of my status, that they will take my children from me. (Survivors)*

We strongly support the following amendments:

- Abolish the no recourse to public funds (NRPF) policy which prevents many migrant women with insecure immigration status from accessing vital, often life-saving support and routes to safety.
- Ensure all survivors, regardless of age or immigration status, are entitled to support, equal access to welfare systems and legal tools that can provide protection from abuse, in accordance with the requirements of the Istanbul Convention which the Bill seeks to ratify.
- Extend eligibility for the existing Domestic Violence (DV) Rule, to ensure all women with insecure immigration status, not only those on spousal visas, are eligible to apply for indefinite leave to remain, and extend the time period for the Destitution Domestic Violence Concession (DDVC) to at least six months.

<sup>1</sup> <https://www.gov.uk/government/publications/domestic-abuse-bill-2020-factsheets>

<sup>2</sup> <https://homeofficemedia.blog.gov.uk/2020/07/07/7626/>



- Deliver safe reporting mechanisms which ensure immigration enforcement is kept completely separate from the domestic abuse response and the safety of the victim is paramount.
- Provide long-term ring-fenced funding to ensure sustainability of BME and migrant 'by and for' specialist services.

### **Family Justice**

There is now a significant body of evidence demonstrating the harm caused to children, young people and their non abusive parents/carers (survivors of domestic abuse) by the family justice system.<sup>3</sup>

*They put you back in the same room as the abuser, to try to get you to mediate with him when he holds all the power and has dominated you for years, you haven't got a chance it's not equal. (Survivor)*

*He went to prison, but the family courts were just interested in him seeing the children. I'm not sure they even knew about the prison stuff. (Survivor)*

*Court services aren't utilising all the services in place that victims need. (Survivor)*

We strongly support the following amendments:

- Ban direct cross-examination in any family, criminal or civil proceedings in all cases involving domestic abuse, sexual abuse, stalking or harassment.
- Guarantee access to special measures for survivors of domestic abuse, sexual abuse, harassment or stalking in the family and civil courts.
- End the assumption of contact in cases where children are at risk of harm from domestic abuse, with contact arrangements in domestic abuse cases based on informed judgement of a child's best interests and safety.
- Prohibit unsupervised contact for a parent waiting for trial, or on bail for, a domestic abuse related offence, or where there are ongoing criminal proceedings for domestic abuse. Amend the proposed definition of domestic abuse to make clear that children experience domestic abuse, and the Children Act 1989 needs to name coercive control as 'harm to children'.

### **Alignment with existing Welsh legislation**

It is crucial that the Domestic Abuse Bill and the VAWDASV (Wales) 2015 Act are complimentary and not contradictory to one another. Welsh Women's Aid remain concerned about the different approaches to legislation and Strategy, which in Wales, reflects the reality that survivors may experience a myriad of different forms of abuse.

- Ensure that proposals for service models and their sustainability are aligned with similar work being carried out in Wales. There needs to be equivalent funding being allocated to support specialist organisations in Wales, that is secure and enables their sustainability. There needs

<sup>3</sup> <https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2019/09/WWA-response-to-MOJ-inquiry-into-family-courts.pdf>

to assurance that duties on non-devolved and devolved public sector funders can work together to ensure that there are not gaps created by the differing legislative agendas.

- Acknowledge the gendered nature of domestic abuse and situate it within the myriad of violence against women and girls, in line with the UK's commitments under international law - including the Convention of the Elimination of All Forms of Discrimination against Women (CEDAW) and the Istanbul Convention and the UN Convention on the Rights of Persons with Disabilities (Article 16).
- The Domestic Abuse Commissioner has effective consultative remit with survivors and services in Wales to ensure there is an understanding of the context as to how devolved and non-devolved competency areas interact and can work effectively to ensure a holistic response in Wales as elsewhere in the UK. To enable this the Commissioners Advisory board should have representation from Wales to ensure the representation of non-devolved of survivors and services in Wales. (Currently the Bill only allows for representation from voluntary organisations for England under Duties of public authority for the Commissioner section 11 Advisory board subsection 4 (b).)

*Any comments or questions regarding this briefing can be directed to:*

**Jordan Brewer**

Welsh Women's Aid

Policy and Research Officer

02920 541 551

[JordanBrewer@welshwomensaid.org.uk](mailto:JordanBrewer@welshwomensaid.org.uk)



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JH/3432/20

Mick Antoniw AS  
Cadeirydd, y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad  
Senedd Cymru  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN  
[Mick.Antoniw@senedd.cymru](mailto:Mick.Antoniw@senedd.cymru)

John Griffiths AS  
Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau  
Senedd Cymru  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
CF99 1SN  
[John.Griffiths@senedd.cymru](mailto:John.Griffiths@senedd.cymru)

15 Hydref 2020

Annwyl Gadeirydd,

Diolch am eich llythyr ar y cyd, dyddiedig 13 Hydref, mewn ymateb i'm llythyr dyddiedig 30 Medi, ynghylch y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd ar 3 Awst mewn perthynas â Bil Cam-drin Domestig Llywodraeth y DU ("y Bil").

Mae cynnydd y Mesur drwy Dŷ'r Arglwyddi yn cael ei ohirio, ac ni ddisgwylir i Ail Ddarlleniad yr Arglwyddi ddechrau tan fis Rhagfyr, gyda champau dilynol y broses graffu Seneddol i ddilyn yn y Flwyddyn Newydd. O ganlyniad, mae'r ddadl yn y Cyfarfod Llawn a oedd i gael ei chynnal ar 10 Tachwedd wedi'i gohirio.

Yn y cyfamser, mae fy swyddogion wrthi'n parhau i drafod gyda'u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU ynglŷn â'n hymgais am welliannau i ddarpariaethau penodol yn y Bil. Byddaf yn ysgrifennu atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am unrhyw gytundeb ar y materion hyn, gan fynd i'r afael â'r pwyntiau yn eich llythyr diweddaraf wrth i'r trafodaethau fynd rhagddynt.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Jane', with a horizontal line above the first letter.

**Jane Hutt AS/MS**

Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip  
Deputy Minister and Chief Whip

---

John Griffiths MS – Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb,  
Llywodraeth Leol a Chymunedau

13 Hydref 2020

Annwyl John

**Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Cysgu Allan yng Nghymru – Problem i Bawb;  
Cyfrifoldeb i Neb**

Cyhoeddodd archwilydd Cyffredinol Cymru yr **Adroddiad** hwn ym mis Gorffennaf, a chafodd ei drafod yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus fis Medi.

Gan fod eich Pwyllgor chi wedi ymgymryd â gwaith gwerthfawr yn y maes hwn, roedd yr Aelodau o'r farn y dylwn ofyn i'ch Pwyllgor ystyried yr agweddau polisi a drafodwyd yn yr adroddiad.

Bydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ystyried yr adolygiad o Bartneriaethau Strategol fel rhan o'n hymchwiliad i'r Rhwystrau i weithrediad llwyddiannus Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio'r mater hwnnw fel astudiaeth achos.

Yn gywir,



**Nick Ramsay AS**  
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.



Mr John Griffiths MS  
Welsh Parliament  
Cardiff Bay  
Cardiff  
CF99 1SN

Ysgol Cyfraith a  
Gwleidyddiaeth  
Rhodfa'r Amgueddfa  
Caerdydd CF10 3AX

School of Law and Politics  
Museum Avenue  
Cardiff CF10 3AX

029 2068 8059  
[wgc@cardiff.ac.uk](mailto:wgc@cardiff.ac.uk)  
<http://sites.cardiff.ac.uk/wgc/>

22 October 2020

Annwyl Mr Griffiths,

At the end of November 2020 the Wales Governance Centre's *Justice and Jurisdiction* project will come to an end. Our research into the criminal justice system in Wales has uncovered a range of issues including those relating to prison conditions, alternative criminal justice models, the legal economy, and racial disproportionality within the criminal justice system in Wales.

As our project nears its conclusion, I am writing to state that I believe that the Equality, Local Government and Communities Committee should carry out an inquiry into racial disproportionality within the criminal justice system in Wales. Our research over the past two years has identified a wide range of problems that, I believe, require urgent attention. The events over the summer following the tragic killing of George Floyd in May have only added to the case for an inquiry in Wales. And while it is true that Members of the Senedd have referred to our findings on racial disproportionality, there has been no substantial scrutiny of those findings to date.

To further underline the case for an in-depth inquiry I have provided a brief summary of some of the key areas of concern that I feel are worthy of further consideration. The points below include previously unpublished data as well as those taken from our most recent *Prisons, Probation and Sentencing in Wales* report.

## Policing

- Home Office data show that there is a disproportionate use of stop and search on Black and Minority Ethnic (BAME) communities in Wales. In 2018/19, there were 13 stop and searches per 1,000 BAME people in Wales, compared with 5 searches per 1,000 White people. There were 36 stop and searches per 1,000 Black (or Black British) people in Wales in 2018/19, while Asian and Mixed groups shared the same rate of 11 searches per 1,000 people.
- Data on the number of times police tactics were used show that individuals from a BAME background were overrepresented in police use of force statistics in 2018/19. While the 2011 Census found that 4.4% of the Welsh population belonged to a BAME ethnic group, 8.9% of all incidents of police restraint were against individuals from a BAME ethnic background in 2018/19. These incidents include handcuffing (8.9%), limb/body restraints (9.1%), and ground restraints (9%).
- Individuals belonging to a BAME ethnic group in Wales were also overrepresented within police use of 'Less lethal weapons' in 2018/19. One in nine (12.4%) of all incidents where a Conducted Energy Device (i.e. a TASER) was used by Welsh forces was against someone from a BAME background in 2018/19.<sup>1</sup> 13.7% of all incidents where a police dog was used involved individuals from a BAME background.
- 6.6% all arrests made by Welsh police forces in 2018/19 were individuals from a BAME background. Despite comprising 0.6% of the general population, 2.4% of all those arrested in 2018/19 belonged to a Black ethnic group.

---

<sup>1</sup> This total includes all incidents including where a CED device is drawn, aimed, arced, red-dot, drive-stun, fired and angle drive-stun.

## **Pleas**

- The Lammy Review in 2017 found that individuals from a BAME background were less likely to enter guilty pleas due to a lack of trust in the criminal justice system. Disaggregated data obtained from the Ministry of Justice show that a slightly higher proportion of White defendants (82.5%) pleaded guilty at the Crown Court in 2019 compared to individuals from a BAME (80.9%) background.

## **First Entrants**

- Although the number of children first entering the criminal justice system has fallen in Wales, the rate has declined unevenly across different ethnic groups since 2010. While the number of White children first entering the criminal justice system in Wales fell by 87%, the number of Asian children declined by 69% and those from Black backgrounds fell by 59%.

## **Sentencing**

- Individuals from a Black (76%), Asian (75%) and Mixed (70%) ethnic group recorded a higher custody rate at the Crown Court in Wales than White (64%) defendants in 2019.
- Those from BAME backgrounds are more likely to receive longer custodial sentences than those belonging to a White ethnic group. The average custodial sentence length in Wales was higher for Mixed (35 months), Asian (33.8 months) and Black (30.4 months) defendants sentenced in Wales in 2019 than for those from White (19.5 months) ethnic groups.

## **The Prison and Probation Population**

- Since 2017, the number of BAME prisoners from Wales (based on home address prior to entering custody) has increased by 14% from 426 in 2017 to 484 in 2019. The overall Welsh prison population fell by 2% during this period.



- In 2019, there were 91 Black people from Wales in prison for every 10,000 of the population. This rate compared to just 14 White people per 10,000 of the population. There were 28 Asian people in prison per 10,000 and 41 people from a Mixed background per 10,000 in prison in 2019.
- Individuals from Black and Mixed ethnic groups are over-represented amongst the probation population in Wales. While White and Asian individuals were under-represented, people from a Black background were 2.5 times over-represented and individuals from Mixed ethnic group were 1.6 times overrepresented in 2019.
- For every 10,000 Black people living in Wales 129 were under probation supervision in 2019. This compared to a rate of 46 per 10,000 for individuals from a White background, 48 for Asian and 80 for those from a Mixed ethnic group.
- The Ministry of Justice's most recent *Statistics on Race in the Criminal Justice System* report found that Black prisoners are more likely to serve a higher proportion of their determinate sentences in prison than any other ethnic group. Disaggregated data show that between 2015 and 2018, Mixed prisoners from Wales (63%) served a higher proportion of their determinate sentences in prison followed by Black (61%), White (57%) and Asian (57%) prisoners.

While criminal justice is reserved to the UK Government, the Welsh Government has a clear set of responsibilities for promoting equality and tackling all forms of discrimination in Wales. The overlap and intersection between the reserved and devolved areas means that this topic has yet to receive any kind of serious analysis or scrutiny. The lack of publicly available Welsh-only criminal justice data has only added to the problem of effective oversight. The Ministry of Justice's own *Statistics on Race in the Criminal Justice System* report, for example, fails to provide a disaggregated picture for Wales and England, while the Lammy review in 2017 also focussed exclusively upon trends in 'England and Wales'.

As it currently stands, there is no clear or authoritative understanding of how different communities across Wales experience and interact with the criminal justice system. It is also unknown what steps could and should to be taken by the Welsh Government to promote

fairness and tackle discrimination within the criminal justice system. I believe that the points outlined above underscore just how important an inquiry into racial disproportionality within the Welsh criminal justice system is at this time.

I would like to take this opportunity to thank you for your time in considering this letter. If you wish to discuss this subject further or require any additional information please do not hesitate to contact me.

Yours sincerely,

Dr Robert Jones